Arolygiaeth Prawf EM

# Arolygiad thematig o'r broses ymchwilio ac adolygu Troseddau Difrifol Pellach (SFO)

Arolygiad gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Mai 2020

**Diolch**

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn o dan arweiniad Arolygydd EM David Miners, gyda chymorth tîm o arolygwyr a staff gweithredol, ymchwil, cyfathrebu a chorfforaethol. Y rheolwr sy'n gyfrifol am y rhaglen arolygu hon yw Helen Davies. Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran mewn unrhyw ffordd yn yr arolygiad hwn. Heb eu cymorth a'u cydweithrediad nhw, ni fuasai'n bosibl cynnal yr arolygiad hwn. Sylwer bod yr enwau yn yr enghreifftiau o ymarfer ym mhob rhan o'r adroddiad wedi cael eu newid i ddiogelu hunaniaeth yr unigolion.

© Hawlfraint y Goron 2020

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfon neges e-bost i psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter @hmiprobation

# Cynnwys


**Rhagair** .... 4

**Ffeithiau am y cyd-destun** .... 5

**Crynodeb gweithredol** .... 6

**Argymhellion** .... 10

**1. Cyflwyniad** .... 11

1.1. Pam cynnal yr arolygiad thematig hwn? .... 11

1.2. Cefndir .... 11

1.3. Nodau ac amcanion .... 16

**Amlinelliad o'r adroddiad** .... 18

**2. Polisi, strategaeth ac arweinyddiaeth** .... 19

2.1. Polisi a strategaeth genedlaethol .... 19

2.2. Swyddogaeth adolygu troseddau difrifol pellach Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM .... 22

2.3. Is-adran Ymarfer Effeithiol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM .... 22

2.4. Gweithredu'r broses adolygu SFO yn lleol .... 23

2.5. Casgliadau a goblygiadau .... 24

**3. Profiad dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd** .... 25

3.1. Hygyrchedd y broses .... 25

3.2. Barn dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd .... 26

3.3. Datgelu i ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd .... 26

3.4. Casgliadau a goblygiadau .... 27

**4. Dysgu a sicrhau ansawdd** .... 28

4.1. Sicrhau ansawdd .... 28

4.2. Dysgu strategol .... 34

4.3. Dysgu lleol .... 34

4.4. Dysgu amlasiantaethol .... 36

4.4. Casgliadau a goblygiadau .... 37

**Cyfeiriadau** .... 39

**Atodiad 1: Troseddau cymwys i'w hystyried yn droseddau difrifol pellach** .... 40

**Atodiad 2: Rhestr termau a byrfoddau** .... 44

**Atodiad 3: Methodoleg** .... 46

**Atodiad 4: Adolygiadau achos difrifol** .... 48

# Rhagair

Mae Troseddau Difrifol Pellach yn cael eu cyflawni gan gyfran fach o'r rheini sydd yn llwyth achosion y gwasanaeth prawf. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau i'r dioddefwyr a theuluoedd cysylltiedig yn rhai trychinebus ac yn aml yn newid bywydau. Felly mae'n hanfodol bod darparwyr gwasanaethau prawf yn atebol am y gwaith a gyflawnir a bod y gwersi a ddysgir o ddigwyddiadau o'r fath yn arwain at welliant wrth ddarparu gwasanaethau.

Dyma brif bwrpas y broses adolygu SFO a gyflwynwyd gyntaf yn 2003 i sicrhau craffu trwyadl pan gyflawnir troseddau difrifol. Gweithredwyd proses ddiwygiedig yn Ebrill 2018. Y broses hon oedd testun ein harolygiad.

Un o'r blaenoriaethau ar gyfer y broses newydd yw sicrhau mwy o dryloywder i ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd, ac mae hyn wedi'i wireddu i ryw raddau gan eu bod bellach yn cael gweld y ddogfen adolygu gyfan. Fodd bynnag, mae'r adolygiadau'n aml yn ddogfennau hir a chymhleth sy'n edrych yn fanwl ar ymarfer prawf, dros nifer o flynyddoedd weithiau. Er bod darparwyr gwasanaethau prawf wedi sicrhau bod adolygiadau'n cael eu datgelu i ddioddefwyr mewn ffordd sensitif, gall fod yn broses ddryslyd a llethol o hyd. Prin iawn yw'r rheini sy'n derbyn y cynnig o ddatgeliad llawn, ac mae angen rhagor o waith i ddeall yn well y rhesymau am hyn ac i roi pob ystyriaeth i amgylchiadau ac anghenion penodol y dioddefwyr.

Nod sylfaenol y broses adolygu SFO yw sicrhau bod y gwersi a ddysgir o adolygiadau SFO yn arwain at well rheolaeth a goruchwyliaeth ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Roedd y darlun a gawsom yn un cymysg. Ar lefel genedlaethol, nid yw adolygiadau SFO yn cael eu dadansoddi i adnabod themâu, cyfrannu at bolisi a gwella ymarfer. Ar lefel leol, mae darparwyr gwasanaethau prawf wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ddysgu gwersi o'r adolygiadau y maent wedi'u cynnal. Fodd bynnag, mae'r ofn a'r pryder a ysgogir gan y broses ymysg staff gweithredol yn tanseilio gallu'r sefydliadau i ddysgu gwersi o'r broses. Eu canfyddiad yw bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau unigolion ac nid ar gyfrifoldebau sefydliadol, ac mae ein casgliadau ni yn cadarnhau hyn.

Mae achosion adolygu SFO yn aml yn gymhleth, a nifer mawr o asiantaethau'n cymryd rhan. Er hynny, nid yw'r rhan fwyaf o achosion SFO yn destun adolygiadau amlasiantaethol ac mae'r broses bresennol yn ymwneud yn llwyr ag ymarfer prawf. Byddai cyfraniad amlasiantaethol yn helpu dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd i gael gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r achos wedi'i reoli.

Mae tîm adolygu Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS) yn gyfrifol am sicrhau ansawdd adolygiadau SFO yn ganolog ac am ddarparu adborth i ardaloedd lleol. Cafwyd achosion o oedi annerbyniol yn y broses hon lle'r oedd darparwyr gwasanaethau prawf ac aelodau staff unigol wedi aros am chwe mis ar gyfartaledd am adborth ar eu hadolygiadau.

Mewn gwrthgyferbyniad â'r broses ar gyfer adolygiadau achosion difrifol eraill, fel Adolygiadau Dynladdiadau Domestig neu adolygiadau achosion difrifol MAPPA, nid yw'r broses bresennol ar gyfer adolygu troseddau difrifol pellach yn cynnig trosolwg annibynnol a thryloywder. Er nad ydym yn argymell y dylai corff annibynnol ymgymryd â'r adolygiadau eu hunain, rydym yn argymell y dylid cael trosolwg annibynnol ar y broses sicrhau ansawdd, gan gorff annibynnol a fydd yn craffu'n rheolaidd ar ansawdd sampl o adolygiadau ac yn adrodd i'r cyhoedd ar ei ganfyddiadau. Byddai hyn hefyd yn caniatáu i dîm adolygu SFO canolog gorbrysur HMPPS gael canolbwyntio ar gasglu'r gwersi a ddysgwyd o adolygiadau SFO ac o ddulliau ymarfer addawol ledled Cymru a Lloegr. Dylid defnyddio hyn yn ei dro i gyfrannu at bolisi cenedlaethol a sbarduno gwelliannau mewn ymarfer.

Mae'n briodol bod adnoddau sylweddol yn cael eu buddsoddi yn y broses adolygu SFO. Yn ein barn ni, mae'r trefniadau presennol yn aneffeithlon. Ni sicrhawyd yr holl welliannau posibl o ran rheoli defnyddwyr gwasanaethau a chynyddu hygyrchedd i ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd. Rydym yn gwneud nifer o argymhellion i wella effeithlonrwydd ac effaith gyffredinol y broses adolygu SFO.

**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf EM

## Ffeithiau am y cyd-destun

| | |
|---|---|
| **258,157** | Nifer yr unigolion a oedd yn cael eu goruchwylio gan wasanaethau prawf ar 30 Medi 2018[1] |
| **577** | Nifer yr hysbysiadau SFO yn 2018/2019[2] |
| **495** | Nifer yr adolygiadau SFO a gwblhawyd o'r hysbysiadau yn 2018/2019[2] |
| **0.2%** | Y ganran fras o'r troseddwyr o dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf a gyhuddwyd o drosedd difrifol pellach yn 2018/2019[3] |
| **60% NPS,**<br>**40% Cwmnïau adsefydlu cymunedol** | Dosbarthiad yr hysbysiadau SFO ymysg darparwyr yn 2018/2019[2] |
| **32% rhywiol,**<br>**68% treisgar** | Canrannau'r hysbysiadau SFO yn 2018/2019 wedi'u rhannu yn ôl y math o drosedd[2] |
| **77%** | Canran yr hysbysiadau SFO yn 2018/2019 a oedd yn gymwys yn awtomatig am adolygiad SFO[2] |
| **48% mawr/mawr iawn,**<br>**41% canolig,**<br>**8% bach,**<br>**3% heb ei nodi/anhysbys** | Canrannau'r hysbysiadau SFO yn 2018/2019 wedi'u rhannu yn ôl yr asesiad o'r risg fwyaf o gael niwed difrifol gan y troseddwr[2] |
| **56% goruchwyliaeth ar ôl rhyddhau,**<br>**38% goruchwyliaeth yn y gymuned,**<br>**3% Carcharu er mwyn Amddiffyn y Cyhoedd,**<br>**2% trwydded oes** | Canrannau'r hysbysiadau SFO yn 2018/2019 wedi'u rhannu yn ôl y math o oruchwyliaeth ar droseddwyr[2] |
| **41%** | Canran y cyhuddiadau am drosedd difrifol pellach yn 2017/2018 a arweiniodd at euogfarn am drosedd difrifol pellach cymwys[4] |

[1] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2019). *Offender management statistics quarterly*. Canol cyfnod blwyddyn ariannol 2018/2019.

[2] Gwybodaeth a ddarparwyd gan HMPPS.

[3] Cafwyd yr amcangyfrif drwy rannu cyfanswm yr hysbysiadau SFO â'r ffigur am y llwyth achosion canol-blwyddyn.

[4] Cyfrifwyd ar sail Tabl 1 yn: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2019). *Serious Further Offences*. https://www.gov.uk/government/statistics/serious-further-offences

# Crynodeb gweithredol

## Cyd-destun yr adroddiad

Mae Troseddau Difrifol Pellach (SFO) yn droseddau treisgar neu rywiol cymwys (gweler Atodiad 1) a gyflawnir gan unigolion sydd o dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf. Cyflwynwyd gweithdrefnau gorfodol ar gyfer hysbysu ac adolygu gan ddarparwyr gwasanaethau prawf yn 2003 i sicrhau adolygiad cynhwysfawr o'r rheolaeth ar yr achos pan geir digwyddiad o'r fath.

Mae darparwyr gwasanaethau prawf yn goruchwylio oedolion sy'n cyflawni gorchmynion cymunedol a'r rheini sy'n cydymffurfio â thrwyddedau carchar. Er 2011, mae tua 0.2 y cant o'r llwyth achosion wedi'i gyhuddo o gyflawni troseddau difrifol pellach.

Yn Ebrill 2018, cyflwynwyd proses adolygu SFO ddiwygiedig. 'Craffu trwyadl' oedd y prif amcan o hyd, ond roedd y broses newydd yn ceisio darparu mwy o dryloywder i ddioddefwyr a thynnu sylw at wersi i'w dysgu ar lefel leol a strategol. Cyflwynwyd math newydd o adroddiad ag arddull naratif, yn lle'r fformat blaenorol a oedd wedi'i seilio ar y broses.

Mae'r canllawiau gweithredol yn nodi bod rhaid cyflawni'r canlynol yn yr adolygiadau SFO gorffenedig:

- asesu a oedd yr holl gamau angenrheidiol wedi'u cymryd, hyd y gellid disgwyl yn rhesymol, i reoli'r risg o niwed i eraill yr oedd yr unigolyn yn ei hachosi
- nodi beth – os rhywbeth – y gellid neu y dylid bod wedi'i wneud yn wahanol
- dadansoddi pam roedd pethau wedi'u gwneud yn y ffordd roeddent wedi'u gwneud
- penderfynu a oes gwersi i'w dysgu o'r adolygiad o'r achos sy'n galw am gymryd camau ar lefel leol neu genedlaethol
- sicrhau bod meysydd i'w gwella wedi'u nodi'n glir.

Mae tîm adolygu SFO HMPPS yn gyfrifol am sicrhau ansawdd yr adolygiadau SFO gorffenedig. Ymhlith ei gyfrifoldebau y mae darparu adborth i ddarparwyr gwasanaethau prawf am ansawdd adolygiadau a choladu gwersi a ddysgwyd am y broses SFO i gyfrannu at ymarfer a sbarduno gwelliannau mewn polisi.

Roedd ein harolygiad yn ymdrin â gweithredu'r broses ddiwygiedig. Ymwelwyd ag wyth darparwr gwasanaethau prawf a thîm adolygu SFO HMPPS. Roedd y darparwyr gwasanaethau prawf wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng rhanbarthau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Ar bob safle, cyfwelwyd rheolwyr a staff gweithredol. Cynhaliwyd nifer bach o gyfarfodydd â dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd a oedd wedi cael datgeliadau o dan y broses adolygu SFO. Er bod y broses adolygu SFO yn ymdrin yn bennaf ag ymarfer prawf, roeddem hefyd wedi cyf-weld rheolwyr o'r heddlu a gwasanaethau plant i ystyried eu dealltwriaeth nhw o'r broses. Roeddem hefyd wedi edrych ar 46 o adolygiadau a chynlluniau gweithredu SFO ac wedi adolygu'r adborth sicrhau ansawdd a ddarparwyd i ardaloedd lleol gan dîm adolygu SFO HMPPS.

## Polisi, strategaeth ac arweinyddiaeth

Nid oes dealltwriaeth gyson o bwrpas yr adolygiad SFO ymysg sefydliadau prawf, a rhoddir gwahanol raddau o bwyslais ar ei swyddogaeth fel adolygiad rheoli mewnol, dogfen ar gyfer dysgu ac adroddiad i ddioddefwyr. Mae'r broses ddiwygiedig yn fwy tryloyw i ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd, gan eu bod bellach yn gallu cael copi o'r ddogfen adolygu orffenedig. Fodd bynnag, mae'r cydymffurfio â'r canllawiau gweithredol wedi arwain yn aml at lunio adolygiadau hir a dyrys o ymarfer prawf sy'n anodd eu hamgyffred gan ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd. Mae nifer y dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd sy'n gofyn am weld yr adolygiadau yn fach. Nid yw ffigurau'n cael eu cofnodi ar lefel genedlaethol ond, yn y sefydliadau a arolygwyd, roedd y gyfran yn llai o lawer na'r 42 y cant o ddioddefwyr ac aelodau a'u teuluoedd sy'n optio i mewn i'r cynllun cyswllt dioddefwyr ar lefel

genedlaethol. Ni chafwyd dadansoddiad o'r rhesymau am hyn, nac o effeithiolrwydd y broses ar gyfer hysbysu dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd am eu hawl i gael adolygiad.

Mae tîm adolygu SFO HMPPS wedi canolbwyntio ar y swm sylweddol o waith sicrhau ansawdd sydd wedi ôl-gronni ers Ebrill 2018. Mae'r tîm wedi dyroddi canllawiau diwygiedig i sicrhau bod y broses sicrhau ansawdd ar gyfer achosion proffil uchel ac achosion lle datgelir i ddioddefwyr yn cael ei chyflawni'n brydlon. Ceir oedi o chwe mis o hyd ar gyfartaledd cyn darparu adborth sicrhau ansawdd am fwyafrif yr adolygiadau a gyflwynwyd gan ddarparwyr gwasanaethau prawf.

Mae darparwyr gwasanaethau prawf yn rhoi blaenoriaeth briodol i gwblhau adolygiadau SFO ac i gyflawni'r cynlluniau gweithredu sy'n eu dilyn. Cafwyd mai timau adolygu SFO dynodedig oedd y model gweithredu gorau, gan eu bod y tu allan i'r rheolaeth linell ar yr achos ac am eu bod yn datblygu arbenigedd yn y rôl hon. Roedd pob un o ranbarthau'r NPS a dau o'r pedwar cwmni adsefydlu cymunedol a arolygwyd yn gweithredu'r model hwn.

Mae adolygiadau SFO yn dechrau ar bwynt y gwrandawiad llys cyntaf a all ddigwydd ychydig ddiwrnodau neu hyd at rai misoedd ar ôl y trosedd honedig. Mae nifer sylweddol o achosion nad ydynt yn arwain wedyn at euogfarn am drosedd difrifol pellach – hyd at 50 y cant mewn rhai ardaloedd. Buddsoddir adnoddau sylweddol mewn cwblhau adolygiad llawn mewn achosion o'r fath ac nid yw'r deilliannau dysgu a geir ar hyn o bryd yn cyfiawnhau hyn. Roedd sefydliadau'n gweld gwerth yn y broses 'edrych yn gynnar' gan ei bod yn ffordd effeithiol a sydyn i adnabod a delio â phroblemau ymarfer, ac mae lle i wneud gwell defnydd ohoni.

## Profiad dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd

Mae nifer y dioddefwyr sydd wedi gofyn am ddatgelu adolygiad SFO yn fach, a dim ond pump o ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd roeddem yn gallu eu cyf-weld yn ystod yr arolygiad. Ar y cyfan, roeddent yn gweld bod y broses yn ymdrin mewn ffordd agored a gonest ag unrhyw ddiffygion a nodwyd mewn ymarfer prawf. Yn benodol, roeddent yn gwerthfawrogi'r gallu i drafod yr achos ag uwch-reolwr.

Roedd darparwyr gwasanaethau wedi mynegi pryder am nifer bach y dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd a oedd wedi gofyn am weld adolygiadau SFO. Ar hyn o bryd, nid oes proses benodol i sicrhau bod dioddefwyr a'u teuluoedd, yn cynnwys y rheini nad ydynt yn optio i mewn i'r cynllun cyswllt dioddefwyr (CCD), yn cael eu hysbysu am eu hawl i weld adolygiadau. Mae NPS Llundain wedi gweithredu'n rhagweithiol i sicrhau bod dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd a ymunodd â'r CCD yn cael gwybod am eu hawl. Mae hyn wedi arwain at fwy o geisiadau am weld yr adolygiad. Bydd y gwersi a ddysgir o weithredu model Llundain yn helpu i gyfrannu at newid ledled y wlad.

Mae Grŵp Amddiffyn y Cyhoedd HMPPS, mewn cydweithrediad â'r is-adran Ymarfer Prawf Effeithiol, wedi darparu cyngor da i uwch-reolwyr ynghylch sut i ddatgelu'r adolygiad i ddioddefwyr. Er hynny, mae'n destun pryder nad yw'r broses bresennol yn ystyriol o amgylchiadau penodol y dioddefwyr wrth wneud y datgeliad. Mae darparwyr gwasanaethau prawf yn cael eu cyfarwyddo i ddarparu copi o'r adolygiad i ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd os gofynnir amdano. Ceir amgylchiadau lle mae hyn yn peri pryder mewn perthynas â hunan-niweidio a'r risg o niwed difrifol ond nid yw'r broses yn cymell y sefydliad i gymryd y ffactorau hyn i ystyriaeth. Mae gwaith mewn llaw i gywiro hyn.

## Dysgu gwersi a sicrhau ansawdd

Mae tîm adolygu SFO HMPPS yn sicrhau ansawdd adolygiadau SFO ar sail y safonau ymarfer a nodwyd yn y canllawiau gweithredol. Cawsom fod y sgoriau a roddwyd ganddynt yn gyson â'r safonau a osodwyd. Yn gyffredinol, roedd adolygiadau SFO yn gryf o ran eu dadansoddiad o asesu, cynllunio dedfrydau a gweithredu ond yn wannach o ran eu hystyriaeth i reolaeth amlasiantaethol. O'r 46 o adolygiadau SFO a welsom, cawsom fod angen gwella tua 30 y cant ohonynt o ran eu dadansoddiad o'r ffactorau risg o niwed neu gynlluniau rheoli risg a bod 22 y cant ohonynt yn methu â dyfarnu'n glir ynghylch a oedd pob cam rhesymol wedi'i gymryd i reoli'r risg o niwed difrifol. Yn groes i'r canllawiau, roedd adolygiadau'n canolbwyntio i raddau helaeth ar 'beth' oedd

wedi digwydd, yn cynnwys cronolegau hanesyddol manwl iawn o bob cysylltiad a gafwyd erioed rhwng y gwasanaeth prawf a'r troseddwr, yn hytrach na 'pham', yn nhermau achosion sylfaenol, mwy uniongyrchol y trosedd a chasgliad clir ynghylch a oedd unrhyw ddiffygion mewn ymarfer prawf – sy'n debygol o fod yn ystyriaeth bwysicaf i'r dioddefwr ac i'r cyhoedd. Roedd y cynlluniau gweithredu wedi'u hanelu'n bennaf at aelodau staff penodol ac roedd unrhyw gamau gweithredu i'w cymryd gan y sefydliad yn ymwneud yn bennaf ag ymarfer timau neu unedau lleol. Mae'r ffocws hwn ar ymarfer unigolion yn cyfyngu'r gallu i ddysgu gwersi ehangach o'r adolygiadau.

Mae rhai achosion proffil uchel wedi arwain at newidiadau mewn polisi ond, ar lefel genedlaethol, nid yw'r canfyddiadau o adolygiadau SFO yn cael eu dadansoddi'n systematig i sbarduno polisi. Yn aml bydd y themâu a nodir mewn adolygiadau SFO yn dod i'r golwg yn fynych hefyd yn ystod archwiliadau mewnol ac arolygiadau Arolygiaeth Prawf EM. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli annigonol ar risgiau a diffyg chwilfrydedd proffesiynol. Nid yw'r canfyddiadau hyn yn cael eu dadansoddi i ganfod pam maent yn ailddigwydd er mwyn eu defnyddio wedyn i sbarduno newidiadau mewn polisi a gweithdrefnau.

Mae darparwyr gwasanaethau prawf wedi gweithredu eu dulliau sicrhau ansawdd eu hunain. Mae'r goreuon yn eu plith yn amserol a systematig, ac mae'r gwersi a ddysgir o'r adolygiadau'n cael eu lledaenu i bob lefel o'r sefydliad.

Mae proses yr adolygiad SFO yn gweithio o'r brig i lawr, ac mae'n broses lle mae'r staff gweithredol sy'n gysylltiedig ag achosion yn cael eu cyf-weld ond yn cael mynediad rhannol yn unig at yr adolygiad a chyfleoedd cyfyngedig i gwestiynu'r canfyddiadau. Mae grwpiau staff yn edrych yn negyddol ar y broses ac yn credu mai ei phrif ffocws yw priodoli bai i unigolion. Mae hyn yn cyfyngu ymhellach ar y posibilrwydd o ddysgu gwersi.

### Tryloywder a dysgu amlasiantaethol

Mae adolygiadau SFO yn canolbwyntio'n llwyr ar ymarfer prawf, ac nid yw asiantaethau allanol fel yr heddlu a gwasanaethau iechyd meddwl yn cymryd rhan yn uniongyrchol yn yr adolygiad o'r achos. Oherwydd natur gymhleth y llwyth achosion prawf, mae bron pob un o'r defnyddwyr gwasanaethau sydd o dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf yn ymwneud â gwasanaethau eraill hefyd. O ganlyniad i'r diffyg ymwneud â phroses bresennol yr adolygiad SFO ar lefel amlasiantaethol, collir cyfleoedd i ddysgu gwersi a chydgysylltu'n well wrth weithio ar achosion.

Mae hyn yn groes i'r arfer mewn prosesau eraill ar gyfer adolygu achosion difrifol. Mewn Adolygiadau Dynladdiadau Domestig (ADDau) ac adolygiadau ymarfer diogelu plant (AYDPau), dysgir gwersi ar sail amlasiantaethol. Yn wahanol i broses yr adolygiad SFO, mae awdur yr ADD a'r AYDP yn annibynnol ac mae'r broses a'r camau i sicrhau ansawdd yn cael eu goruchwylio un ai gan y bartneriaeth diogelu neu gan banel sy'n cynnwys cynrychiolwyr y prif asiantaethau sy'n ymwneud â'r achos. Nid oes sail statudol debyg i'r adolygiad SFO ac nid oedd wedi'i sefydlu fel adolygiad amlasiantaethol. Cwblheir adolygiadau SFO gan reolwyr prawf oddi mewn i'r sefydliad, ac nid oes corff annibynnol i oruchwylio'r broses neu sicrhau ei hansawdd. Mae'r diffyg annibyniaeth a thryloywder yn creu'r perygl o danseilio hyder y cyhoedd yn y broses.

**Ymarfer Effeithiol**

**Camau a nodwyd gan yr arolygwyr i wella proses yr adolygiad SFO**

- Wrth ddatgelu'r adolygiad i ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd, dylid ystyried eu hamgylchiadau penodol.
- Rhaid i'r broses o ddysgu gwersi o adolygiadau SFO fod yn un ddwyffordd a dylid galluogi staff rheng flaen i roi adborth yn rhwydd am eu profiadau o'r achos a'u disgwyliadau o ran ymarfer.
- Dylai adolygiadau SFO gael eu cynnal gan reolwyr prawf sydd mewn timau adolygu SFO ar wahân.
- Dylid dadansoddi ymarfer prawf mewn adolygiadau SFO yn ogystal â strwythurau a gweithdrefnau sefydliadol er mwyn canfod gwersi i'w dysgu. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau prawf ddangos tystiolaeth bod newidiadau mewn polisi ac ymarfer wedi'u lledaenu a'u sefydlu.
- Dylid ystyried gwybodaeth a geir gan asiantaethau allanol wrth gynnal adolygiadau SFO. Bydd hyn yn galluogi sefydliadau a dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd i gael gwell dealltwriaeth o'r rheolaeth ar yr achos.

## Argymhellion

**Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gymryd y camau canlynol:**

Comisiynu asiantaeth allanol i:

- sicrhau ansawdd cyfran benodol o adolygiadau SFO gorffenedig bob blwyddyn er mwyn cael barn annibynnol am safon y gwaith – a'r canlyniadau i'w cyhoeddi'n rheolaidd
- trefnu digwyddiadau meincnodi rhanbarthol i ledaenu'r arferion gorau mewn adolygiadau SFO a sicrhau cysondeb rhwng rhanbarthau prawf.

**Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi gymryd y camau canlynol:**

Drwy ymgynghori â darparwyr gwasanaethau prawf, adolygu polisi, canllawiau a gweithdrefnau SFO, gan gynnwys y canlynol yn benodol:

- y dylai adolygiadau SFO ganolbwyntio ar reolaeth yr achos a digwyddiadau pwysig yn y cyfnod cyn y trosedd pellach ac ar adnabod unrhyw ddiffygion difrifol mewn ymarfer prawf neu gyfleoedd a gollwyd wrth reoli'r achos
- y dylai adolygiadau SFO gynnwys dadansoddiad o unrhyw ffactorau systemig neu weithdrefnol mewn perthynas ag ymarfer prawf a phenderfynu
- lle mae natur yr achos yn dangos bod angen hynny, y dylid sicrhau bod asiantaethau allanol (er enghraifft, yr heddlu a gwasanaethau plant) a fu'n gysylltiedig â'r achos yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad SFO, gan ystyried a ddylai hyn fod yn orfodol yn yr holl achosion dynladdiad nad ydynt yn dod o dan weithdrefnau amlasiantaethol ar gyfer adolygiadau dynladdiadau domestig neu adolygiadau achos difrifol MAPPA ar hyn o bryd
- y dylai fod yn ofynnol bod adolygiadau SFO sy'n cynnwys canfyddiadau am gamau gweithredu gan asiantaethau eraill yn cael eu rhannu â'r asiantaethau hynny
- y dylai'r cynllun cyswllt dioddefwyr ym mhob ardal fod yn gyfrifol am gysylltu â dioddefwyr/aelodau o'u teuluoedd
- y dylai adroddiadau am adolygiadau SFO gael eu gwneud yn haws eu deall gan ddioddefwyr, gan dynnu sylw at ddigwyddiadau a chanfyddiadau allweddol
- y dylai asesiadau i sicrhau ansawdd adolygiadau SFO gael eu cynnal gan is-adrannau prawf lleol a thrwy broses newydd i sicrhau ansawdd o dan arweiniad allanol
- y dylid darparu hyfforddiant adolygu SFO mewn ardaloedd lleol, gan roi pwyslais ar yr arddull naratif a chwrdd ag anghenion dioddefwyr
- y dylid darparu copi wedi'i olygu o adolygiadau SFO i'r rheolwyr troseddwyr sy'n ymwneud â'r achos.

**Dylai tîm SFO Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi gymryd y camau canlynol:**

- dadansoddi adolygiadau SFO yn fanwl ac yn rheolaidd i gofnodi'r holl themâu a gwersi perthnasol. Dylai hyn gyfrannu at bolisi HMPPS a sbarduno gwelliannau mewn ymarfer
- cyhoeddi adroddiad blynyddol a fydd yn crynhoi tueddiadau allweddol, gwersi a ddysgwyd ac ymarfer addawol a nodwyd mewn adolygiadau SFO
- adolygu'r gyfradd isel o geisiadau gan ddioddefwyr am ddatgelu adolygiadau SFO
- sicrhau bod y broses datgelu i ddioddefwyr yn rhoi sylw i'r risgiau i unigolion ac i feysydd lle maent yn agored i niwed.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Pam cynnal yr arolygiad thematig hwn?

Mae'r effaith o Droseddau Difrifol Pellach (SFOs) ar ddioddefwyr a'u teuluoedd yn un ddwys ac mae lefel y diddordeb ymysg y cyhoedd a'r cyfryngau mewn achosion o'r fath wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Prin iawn yw'r dystiolaeth o ymchwil am ansawdd ac effeithiolrwydd adolygiadau SFO, ac mae'r rhan fwyaf ohoni'n dyddio o'r cyfnod cyn diwygiadau *Gweddnewid Adsefydlu* i wasanaethau prawf (2014). Cyflwynwyd fformat adroddiad newydd a set newydd o ddogfennau ar gyfer adolygiadau SFO yn Ebrill 2018, a chafwyd rhai newidiadau pwysig mewn ymarfer a thryloywder llwyr i ddioddefwyr a'u teuluoedd o ganlyniad. Oherwydd y bwlch a gafwyd wrth gyhoeddi mesurau perfformiad SFO yn 2018/2019, ychydig o wybodaeth swyddogol sydd wedi bod ar gael am berfformiad y broses a'r gweithdrefnau newydd. Mae adolygiad proffil uchel o un achos gan Arolygiaeth Prawf EM (2018) wedi darparu rhywfaint o dystiolaeth, ond nid yw hon yn debygol o fod yn gynrychiadol o'r holl adolygiadau SFO.

Yn yr Adroddiad gan y Prif Arolygydd Prawf (2019), dywedodd y Fonesig Glenys Stacey fod diffyg tryloywder yn y trefniadau. Meysydd allweddol lle mae'r wybodaeth yn gyfyngedig iawn yw effaith y broses newydd ac a yw'n cyflawni ei phwrpas; nifer y dioddefwyr sy'n dewis cymryd rhan yn y broses; a'r hyn sy'n cael ei goladu o'r gwersi a ddysgwyd yn yr adolygiadau.

Gwnaethom benderfyniad i edrych yn fwy manwl ar weithrediad y trefniadau SFO newydd, gan roi sylw penodol i'r canlynol: sicrhau ansawdd; sut mae'r gwersi i'w dysgu yn cael eu canfod; sut mae ymarfer prawf yn cael ei wella; a phrofiad y dioddefwr a'i deulu.

## 1.2. Cefndir

**Cyflwyniad**

Er bod troseddau difrifol pellach yn gymharol brin, mae eu heffaith yn ddifrifol a hir ei pharhad. Er 2011, cyflawnwyd troseddau difrifol pellach gan oddeutu 0.2 y cant o'r llwyth achosion prawf (gweler tabl 1.4 isod). Mae'r adolygiad o oruchwyliaeth yn dilyn y troseddau hyn wedi cael ei alw'n adolygiad SFO er 2003. Mae HMPPS yn dyroddi Cyfarwyddiadau Prawf i ofyn am gymryd camau ac i ddarparu gwybodaeth a chyfarwyddyd ynghylch sut mae'r adolygiadau i'w cynnal. Mae'r rhain yn darparu crynodeb o'r nod polisi a'r rheswm dros ei ddatblygu neu ei ddiwygio.

Mae'r Cyfarwyddiadau Prawf (PI) SFO wedi'u diwygio nifer o weithiau er 2003, ond mae'r pwrpas sylfaenol o ddarparu craffu trwyadl wedi aros yn gyson gan mwyaf. Yn PI 10/2011, cyflwynwyd cynlluniau gweithredu yn rhan o'r broses, ac yn PI 04/2013 roedd gofyniad bod adroddiad trosolwg i fod ar gael i ddioddefwyr. Yn PI 15/2014, diweddarwyd y cyfrifoldebau yng nghyd-destun rhannu'r rheolaeth dros droseddwyr rhwng yr NPS a chwmnïau adsefydlu cymunedol yn dilyn gweithredu *Gweddnewid Adsefydlu*. Roedd y Cyfarwyddyd Prawf hwn yn cynnwys cyfeiriad at *Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 2014* (DAT), a oedd yn ehangu goruchwyliaeth y gwasanaeth prawf i gynnwys yr holl unigolion a gafodd ddedfryd o fwy nag un diwrnod mewn carchar. Roedd hefyd yn cyflwyno fframwaith sicrhau ansawdd i'w ddilyn gan dîm adolygu SFO HMPPS.

Dyroddwyd Cyfarwyddyd Prawf PI 06/2018 yn Awst 2018, ac roedd yn darparu cyfarwyddiadau ar y fformat newydd, yn cynnwys gweithdrefnau newydd ar gyfer adnabod ac adolygu troseddau difrifol pellach. Roedd hyn yn cynnwys adroddiad mewn arddull naratif gyda phwyslais ar ddysgu gwersi a gwella ymarfer prawf. Yn ogystal â hyn, roedd y cyfarwyddyd yn darparu ar gyfer trefnu i'r adroddiad llawn fod ar gael i ddioddefwyr a'u teuluoedd.

Mae rhestr o droseddau sy'n gymwys i'w hystyried yn droseddau difrifol pellach yn Atodiad 1. Bydd troseddau treisgar a rhywiol difrifol a gyflawnir gan ddefnyddiwr gwasanaethau o dan oruchwyliaeth yn y gymuned yn cael eu dynodi'n awtomatig yn achosion ar gyfer adolygiad SFO. Cwblheir adolygiadau SFO amodol lle mae defnyddwyr gwasanaethau wedi cyflawni troseddau treisgar neu

rywiol eraill ac wedi'u hasesu'n rhai a oedd yn peri risg fawr o niwed difrifol ar ryw adeg yn ystod eu goruchwyliaeth.

### Ffeithiau a data allweddol

Nid yw gwybodaeth ystadegol am adolygiadau SFO yn cael ei chyhoeddi fel arfer, ond mae gwybodaeth berthnasol wedi'i chyhoeddi yn dilyn cwestiynau seneddol a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Oherwydd yr oedi rhwng hysbysu am drosedd difrifol pellach a chwblhau'r adolygiad, mae'n anodd rhoi cyfrif cywir o nifer yr hysbysiadau sy'n arwain at adolygiad yn ystod cyfnod penodol. Mae hyn yn fwy anodd byth am fod cyhuddiadau'n aml yn cael eu gollwng neu eu newid fel na fydd achosion yn gymwys i'w hadolygu yn y pen draw ar ôl gwneud yr hysbysiad cychwynnol. Er hynny, mae'r wybodaeth sydd ar gael yn dangos bod nifer yr hysbysiadau SFO wedi cynyddu pan ehangwyd goruchwyliaeth ar ôl rhyddhau o'r carchar yn dilyn cyflwyno DAT yn 2015, a oedd wedi cynyddu'r llwyth achosion cyfan o droseddwyr o dan oruchwyliaeth tua 40,000 y flwyddyn. Roedd y cynnydd yn nifer yr adolygiadau gorffenedig o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer yr hysbysiadau wedi dechrau effeithio ar y ffigurau o 2017/2018 (gweler tabl 1.1).

*Tabl 1.1: Nifer yr adolygiadau SFO, wedi'u rhannu rhwng achosion nad ydynt o dan DAT ac achosion DAT yn unig.*[5]

| Blwyddyn derbyn yr adolygiad | Nid o dan DAT | DAT | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2015/2016 | 481 | 26 | 507 |
| 2016/2017 | 389 | 126 | 515 |
| 2017/2018 | 495 | 131 | 626 |


Mae gwybodaeth a gafwyd yn dilyn cwestiwn seneddol yn Chwefror 2019[6] yn dangos bod nifer yr adolygiadau SFO a gwblhawyd ym mlwyddyn galendr 2018, yn dilyn cyflwyno'r prosesau newydd, wedi gostwng yn sylweddol. Ar y dechrau, roedd darparwyr gwasanaethau prawf wedi'i chael yn anodd ymaddasu i arddull diwygiedig yr adolygiad, yn enwedig mewn perthynas â'r ffaith bod y ddogfen ar gael yn rhwyddach i ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd. Roedd hyn wedi ychwanegu'n sylweddol at lwyth gwaith y tîm canolog yn HMPPS a oedd yn gyfrifol am sicrhau ansawdd adolygiadau SFO a chafwyd ôl-groniad o adolygiadau yn y broses sicrhau ansawdd. Mae'r wybodaeth o'r ateb i'r cwestiwn seneddol yn dangos hefyd, ar gyfer yr adolygiadau a gafwyd rhwng 2015 a 2018, fod yr NPS wedi cwblhau 57 y cant ohonynt a'r cwmnïau adsefydlu cymunedol wedi cwblhau 43 y cant, ar gyfartaledd (gweler ffigur 1.1).

---

[5] Gwybodaeth wedi'i darparu gan HMPPS.

[6] Frazer, L. (2019). *Criminal Investigation. UK Parliament: Written answer*, 13 Chwefror 2019, HC 220995. Ar gael yn: https://www.parliament.uk/business/publications/written-questions-answers-statements/written-question/Commons/2019-02-13/220995/

*Ffigur 1.1: Nifer yr adolygiadau SFO yn ôl darparwr*




Mae'r wybodaeth a ryddhawyd i'r senedd yn dangos hefyd, ar gyfer y cyfnod rhwng 2015 a 2018, fod cyfran yr adolygiadau SFO ar gyfer trosedd treisgar wedi cynyddu o 43 y cant i 63 y cant a bod y gyfran ar gyfer trosedd rhywiol wedi gostwng o 57 y cant i 37 y cant. Mae'n ymddangos bod y newid hwn wedi'i sbarduno gan gynnydd cyffredinol yn nifer y troseddau difrifol pellach treisgar ynghyd â gostyngiad sydyn yn nifer yr adolygiadau sy'n gysylltiedig â threisio yn 2018. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw ddadansoddi pellach wedi bod o'r rhesymau dros y tueddiadau hyn mewn troseddau difrifol pellach, er eu bod yn ymddangos yn gyson â thueddiadau mwy cyffredinol o ran dynladdiad a threisio mewn cysylltiad â chyhuddo ac euogfarnu. Gan fod yr ystadegau a gyhoeddwyd am y tueddiadau mewn adolygiadau SFO yn gyfyngedig, nid oes tystiolaeth glir ynghylch a oedd DAT wedi cael effaith uniongyrchol ar y math o droseddau (gweler tabl 1.2).

*Tabl 1.2: Nifer yr adolygiadau SFO lle'r oedd (a) yr NPS neu (b) cwmni adsefydlu cymunedol yn gorff arolygu, a gwblhawyd rhwng 01 Ionawr 2015 a 31 Rhagfyr 2018, wedi'u rhannu rhwng (i) llofruddiaeth, (ii) dynladdiad, (iii) treisio, (iv) trais yn erbyn person a (v) ymosodiad rhywiol.* [7]

| Darparwr gwasanaethau prawf | Trosedd difrifol pellach | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| a) Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | (i) Llofruddiaeth | 28 | 24 | 47 | 43 |
| | (ii) Dynladdiad | 2 | 3 | 5 | 2 |
| | (iii) Treisio | 124 | 113 | 124 | 76 |
| | (iv) Trais yn erbyn person | 95 | 105 | 149 | 137 |
| | (v) Ymosodiad rhywiol | 43 | 36 | 37 | 24 |
| | Cyfanswm y troseddau | 292 | 281 | 362 | 282 |
| b) Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol | (i) Llofruddiaeth | 42 | 47 | 65 | 71 |
| | (ii) Dynladdiad | 3 | 5 | 13 | 8 |
| | (iii) Treisio | 101 | 141 | 132 | 73 |
| | (iv) Trais yn erbyn person | 44 | 40 | 49 | 55 |
| | (v) Ymosodiad rhywiol | 12 | 2 | 14 | 4 |
| | Cyfanswm y troseddau | 202 | 235 | 273 | 211 |
| Cyfanswm yr adolygiadau a dderbyniwyd | | 494 | 516 | 635 | 493 |

[7] Frazer, L. (2019). Criminal Investigation. *UK Parliament: Written answer*, 13 Chwefror 2019, HC 220995. Ar gael yn: https://www.parliament.uk/business/publications/written-questions-answers-statements/written-question/Commons/2019-02-13/220995/

Mae adolygiadau SFO yn dadansoddi'r ymarfer rheoli risg mewn achosion, yn cynnwys lefel y risg o niwed difrifol a aseswyd. Yn 2018/2019, roedd mwyafrif yr hysbysiadau SFO am lofruddiaeth yn cael eu rheoli ar lefel ganolig o risg o niwed difrifol (gweler tabl 1.3).

*Tabl 1.3: Nifer a chyfran yr adolygiadau SFO lle'r oedd yr hysbysiad SFO am lofruddiaeth yn 2018/2019 yn ôl lefel y risg o niwed difrifol.*[8]

| Lefel y risg fwyaf o niwed difrifol | Nifer yr adolygiadau SFO | Cyfran yr adolygiadau SFO |
|---|---|---|
| Isel | 20 | 14% |
| Canolig | 75 | 52% |
| Uchel | 38 | 27% |
| Uchel iawn | 2 | 1% |
| Heb ei phennu | 8 | 6% |
| Cyfanswm | 143 | 100% |

Mae'r gymhareb rhwng adolygiadau SFO a llwythi achosion darparwyr gwasanaethau prawf wedi aros yn gymharol isel ers rhannu'r rheolaeth dros droseddwyr rhwng yr NPS a'r cwmnïau adsefydlu cymunedol. Roedd cynnydd yn nifer yr adolygiadau SFO rhwng 2013/2014 a 2015/2016, ond roedd hyn yn gyson â'r cynnydd mewn llwythi achosion yn dilyn cyflwyno DAT yn 2014 (gweler tabl 1.4).

*Tabl 1.4: Nifer yr adolygiadau SFO fel canran o lwythi achosion.*

| | Blwyddyn ariannol | Adolygiadau SFO[9] | Llwyth achosion (diwedd Medi)[10] | Adolygiadau SFO fel % o'r llwyth achosion[11] |
|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaethau prawf | 2011/2012 | 441 | 236,154 | 0.19% |
| | 2012/2013 | 409 | 230,736 | 0.18% |
| | 2013/2014 | 429 | 220,242 | 0.19% |
| Ar ôl cyflwyno DAT | 2014/2015 | - | - | - |
| | 2015/2016 | 507 | 234,229 | 0.22% |
| | 2016/2017 | 515 | 262,388 | 0.20% |
| | 2017/2018 | 626 | 265,047 | 0.24% |
| | 2018/2019 | 495 | 258,157 | 0.19% |

## Mesurau perfformiad

Tan Ebrill 2018, roedd perfformiad rhanbarthau'r NPS a'r cwmnïau adsefydlu cymunedol yn cael ei fonitro drwy'r mesurau canlynol:

Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol: Metrig Sicrwydd B: Adolygiadau Troseddau Difrifol Pellach: Canran y Cynlluniau Gweithredu Troseddau Difrifol Pellach derbyniol a gynhaliwyd gan y Contractwr o fewn 3 mis ar ôl cyhuddo Person a Ddynodwyd i'r Contractwr o Drosedd Difrifol Pellach.

---

[8] Darparwyd y data gan HMPPS.

[9] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. *Proven reoffending statistics*. https://www.gov.uk/government/collections/proven-reoffending-statistics

[10] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. *Offender management statistics quarterly* https://www.gov.uk/government/collections/offender-management-statistics-quarterly

[11] Cafwyd yr amcangyfrifon drwy rannu cyfanswm yr hysbysiadau SFO â'r ffigur canol blwyddyn ar gyfer y llwyth achosion.

NPS SL017: Adolygiadau Troseddau Difrifol Pellach:
Canran yr Adolygiadau Troseddau Difrifol Pellach derbyniol a gynhaliwyd gan yr NPS ar gyfer Personau a Gedwir o fewn tri mis ar ôl cyflwyno hysbysiad o'r trosedd difrifol pellach i NOMS.

Ataliwyd y metrig perfformiad hwn yn Ebrill 2018 i ganiatáu cyflwyno'r broses adolygu SFO newydd. Nid yw amserlen wedi'i phennu ar hyn o bryd ar gyfer ailgyflwyno'r mesur perfformiad hwn. Mae tîm SFO HMPPS wedi parhau i sicrhau ansawdd adolygiadau ers cyflwyno'r broses newydd ac mae'n darparu sgoriau 'cysgodol' i ddarparwyr. Cawsom fod rhai darparwyr yn parhau i ddefnyddio'r sgoriau cysgodol i'w helpu i fonitro eu perfformiad.

### Tystiolaeth ansoddol

Mae ychydig o wybodaeth ar gael am ansawdd adolygiadau SFO. Yn fewnol, mae tîm SFO HMPPS yn darparu adborth i awduron adolygiadau, ond ni threfnir i'r wybodaeth fod ar gael yn allanol. Yn yr un modd, ychydig iawn o dystiolaeth ymchwil sydd ar gael. Er bod y cyfarwyddiadau prawf yn cynnwys rhwymedigaeth y bydd tîm SFO HMPPS 'yn cylchredeg themâu dysgu allweddol a gwybodaeth i helpu i wella ymarfer', nid yw'r gwersi a rannwyd yn cael eu cyhoeddi'n allanol (PI 06/2018). Y gwersi a gyhoeddwyd ddiwethaf yw'r rheini o gyd-ddadansoddiad o adroddiadau llawn a gynhaliwyd gan Uned Amddiffyn y Cyhoedd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ac Arolygiaeth Prawf EM yn 2005. Y pedwar prif faes i'w gwella a nodwyd oedd: (i) ansawdd asesiadau o risg o niwed; (ii) gwaith cam-drin domestig; (iii) gorfodi; a (iv) rhannu gwybodaeth.

### Arolygiadau blaenorol

Yn rhan o'r rhaglen graidd ar gyfer arolygu darparwyr gwasanaethau prawf, mae Arolygiaeth Prawf EM yn cael tystiolaeth am gyflawni cynlluniau gweithredu a lledaenu gwersi a ddysgwyd o fewn y sefydliad, o achosion SFO diweddar. Darperir y wybodaeth hon gan dîm SFO HMPPS rhwng chwech ac wyth wythnos cyn cyflawni gwaith maes yr arolygiad, yn unol â PI 06/2018. Bydd arolygwyr Arolygiaeth Prawf EM yn ystyried i ba raddau y mae'r sefydliad yn elwa o'r gwersi a ddysgwyd mewn adolygiadau SFO i sbarduno gwelliant a sut mae'n ymateb i wersi a ddysgwyd pan aiff pethau o le. Cawsom fod ymarfer anghyson ar draws rhanbarthau'r NPS ac mewn cwmnïau adsefydlu cymunedol. Mewn sefydliadau lle mae'r perfformiad yn gwella o ganlyniad i ddysgu gwersi o adolygiadau SFO ac adolygiadau eraill o achosion difrifol, gwelir bod systemau effeithiol ar waith. Mae rheolwyr a thimau, sydd fel arfer â chyfrifoldebau o ran datblygu ansawdd, yn gyfrifol am wella ymarfer. Mae'r trosolwg gan reolwyr a'r cyfathrebu â staff yn gyson a chynhwysfawr. Mewn sefydliadau gwannach eu perfformiad, nid yw'r atebolrwydd yn glir ac nid yw'r gwersi a ddysgwyd o adolygiadau SFO yn cael eu cyfleu'n gyson. Gadewir i reolwyr unigol wneud y gwaith hwn yn hytrach na'i fod yn rhan o ddull systematig.

Ar gais y Weinyddiaeth Gyfiawnder, cynhaliodd Arolygiaeth Prawf EM adolygiad annibynnol o achos Leroy Campbell a chyhoeddi'r adroddiad amdano wedyn yn *Independent review of the case of Leroy Campbell* (2018): achos proffil uchel oedd hwn a oedd wedi bod yn destun adolygiad SFO cyn hynny. Edrychodd Arolygiaeth Prawf EM ar broses a chynllun gweithredu'r adolygiad SFO, ac ystyried a oedd yr adolygiad SFO yn ddigon gonest a dibynadwy. Daeth i'r casgliad fod yr adolygiad SFO yn yr achos hwn yn un cynhwysfawr, cywir a dibynadwy.

### Adolygiadau amlasiantaeth

Mae model yr adolygiad SFO yn ymdrin ag ymarfer prawf a chamau gweithredu gwasanaethau prawf yn unig, er y bydd asiantaethau eraill yn gysylltiedig â'r achos yn aml. Cynhelir yr adolygiad gan reolwr yn y sefydliad goruchwylio. Er bod y broses sicrhau ansawdd yn cael ei chyflawni'n ganolog, mae'n cael ei chwblhau gan reolwr prawf arall. Weithiau bydd achosion adolygiadau SFO yn cael eu cynnal ochr yn ochr ag adolygiadau eraill gan asiantaethau allanol. Mewn perthynas ag adolygiadau SFO, nid yw'n glir pa effaith y maent yn ei chael ar asiantaethau allanol fel yr heddlu a gwasanaethau plant ac a yw'r asiantaethau hyn yn ymwybodol o'r cynlluniau gweithredu a'u canlyniadau. Er bod rhai camau gweithredu yn cyfeirio at asiantaethau eraill, nid oes gofyniad i

rannu'r adolygiadau ag asiantaethau eraill. Mewn gwrthgyferbyniad llwyr â hyn, mae mathau eraill o adolygiadau achosion difrifol yn rhai amlasiantaeth ac yn fwy tebygol o gynnwys elfen annibynnol sylweddol.

Er enghraifft, gyda golwg ar adolygiadau o achosion difrifol o dan MAPPA, y cafwyd 10 ohonynt yn 2018/2019,[12] fe gynhelir y rhain pan fydd troseddwr a reolir ar sail amlasiantaethol ar lefel 2 neu 3 MAPPA yn cyflawni trosedd difrifol. Mae Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA yn gyfrifol am benodi cadeirydd annibynnol a phanel adolygu a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr y prif sefydliadau cysylltiedig. Gofynnir i'r prif sefydliadau gyflwyno adolygiadau rheolaeth fewnol, a fydd yn cyfrannu at yr adroddiad terfynol. Trefnir i gwblhau'r adolygiadau o fewn pum mis ond byddant yn para'n hirach na hynny yn aml. Mae'r adroddiadau hyn yn adroddiadau mewnol i Fwrdd Rheoli Strategol MAPPA. Ni fyddant yn cael eu cyhoeddi, ond paratoir adroddiad trosolwg i'w ddatgelu i ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd os gwneir cais. Nid oes proses ffurfiol i sicrhau ansawdd, ond mae'r Grŵp Amddiffyn y Cyhoedd canolog yn darparu adborth am ansawdd yr adroddiadau.

Mae Adolygiadau Dynladdiadau Domestig (ADDau), a gyflwynwyd yn dilyn *Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004*, yn cael eu comisiynu gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol awdurdodau lleol, a fydd yn penodi cadeirydd annibynnol ac awdur i'r adroddiad. Bydd y panel adolygu yn cynnwys cynrychiolwyr y prif asiantaethau sy'n gysylltiedig. Bydd pob asiantaeth yn cyflwyno adolygiad rheolaeth fewnol i'w ystyried gan y panel, a fydd wedyn yn goruchwylio'r gwaith o lunio'r adroddiad. Mae cylch gwaith yr ADD yn dweud yn benodol y dylai adolygiadau fynd ymhellach na chanolbwyntio ar ymddygiad unigolion ac a ddilynwyd y gweithdrefnau, er mwyn asesu a oedd y weithdrefn/polisi yn ddibynadwy.[13] Mae proses sicrhau ansawdd y Swyddfa Gartref ar gyfer ADDau yn cael ei chadeirio gan Bennaeth yr Uned Troseddau Treisgar ac mae'n cynnwys panel annibynnol ac arno gynrychiolwyr o'r asiantaethau statudol perthnasol. Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, cofnodwyd 129 o ddynladdiadau domestig.[14]

Comisiynir adolygiadau o achosion difrifol plant yng Nghymru a Lloegr gan baneli amlasiantaeth sy'n rhan o'r trefniadau Partneriaid Diogelu Lleol. Yn Lloegr, yn dilyn niwed difrifol i blentyn, gellir cynnal adolygiad ymarfer diogelu plant ar lefel leol neu genedlaethol. Cymeradwyir yr adolygiadau cenedlaethol gan banel cenedlaethol. Penodir y panel cenedlaethol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a bydd yn cynnwys gweithwyr proffesiynol sydd ag arbenigedd a phrofiad perthnasol. Mae'r meini prawf ar gyfer yr adolygiadau hyn yn cynnwys y goblygiadau i bolisi ac ymarfer cenedlaethol (Yr Adran Addysg 2018). Yng Nghymru, bydd adolygiadau ymarfer plant ar ffurf adolygiad cryno neu adolygiad estynedig, yn ôl y graddau y mae gwasanaethau plant yn cymryd rhan. Mae crynodeb o'r adolygiadau amlasiantaeth hyn yn Atodiad 4.

## 1.3. Nodau ac amcanion

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn er mwyn edrych ar y ffordd y mae'r broses adolygu SFO yn gweithio tua 18 mis ar ôl ei gweithredu. Yn benodol, roeddem am wybod y canlynol:

1. A yw'r broses sicrhau ansawdd ar gyfer adolygiadau SFO yn galluogi darparwyr gwasanaethau prawf i ddysgu gwersi'n well ac i wella eu hymarfer?
2. A yw'r gwersi a ddysgir o adolygiadau SFO yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan ddarparwyr gwasanaethau prawf i sbarduno gwelliant?
3. A yw'r gwersi a ddysgir o adolygiadau SFO yn cael eu defnyddio'n systematig ar lefel genedlaethol i adolygu polisïau a'u gwella?

---

[12] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2019). *Multi-Agency Public Protection Arrangements – Annual Report 2018/19.* www.gov.uk/government/statistics/multi-agency-public-protection-arrangements-mappa-annual-report-2018-to-2019

[13] Y Swyddfa Gartref. (2016). *Multi-Agency Statutory Guidance for the conduct of Domestic Homicide Reviews*.

[14] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2020). *Homicide in England and Wales: year ending March 2019*.

4. A yw’r broses adolygu SFO yn cwrdd â disgwyliadau ac anghenion dioddefwyr?
5. Ai’r model adolygu SFO yw’r un mwyaf effeithiol i sicrhau ymgysylltu amlasiantaethol a gwella gweithio amlasiantaethol?
6. A oes gwelliannau dichonol i’r broses a’r gweithdrefnau adolygu SFO a allai wella deilliannau dysgu ac ymarfer?

## Amlinelliad o'r adroddiad

| **Pennod** | **Cynnwys** |
|---|---|
| 2. Polisi, strategaeth ac arweinyddiaeth | Arweinyddiaeth strategol genedlaethol a lleol mewn perthynas â'r broses adolygu SFO<br>Rôl tîm adolygu SFO HMPPS |
| 3. Profiad dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd | Effeithiolrwydd y broses SFO ddiwygiedig mewn perthynas â dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd<br>Sut mae dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd yn gweld y broses |
| 4. Dysgu gwersi a sicrhau ansawdd | Effeithiolrwydd y broses ar gyfer sicrhau ansawdd adolygiadau SFO<br>Lledaenu'r gwersi a ddysgwyd o adolygiadau SFO ar lefel leol a chenedlaethol<br>Effaith adolygiadau SFO ar strategaeth a pholisi<br>Effaith y broses adolygu SFO ar ddiwylliant sefydliadol<br>Dysgu amlasiantaethol |

# 2. Polisi, strategaeth ac arweinyddiaeth

Yn y bennod hon, rydym yn adrodd ar bolisi ar droseddau difrifol pellach ac ar yr agwedd strategol at y broses adolygu SFO ar lefel genedlaethol a lleol. Rydym yn gwneud sylwadau am ddibenion penodedig y gweithdrefnau adolygu SFO ac a ydynt yn cael eu cyflawni ai peidio.

## 2.1. Polisi a strategaeth genedlaethol

Mae darparwyr gwasanaethau prawf yn rheoli unigolion cymhleth, a nifer mawr ohonynt wedi cyflawni troseddau treisgar a rhywiol. Mae proffil a hanes y defnyddwyr gwasanaethau yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn gysylltiedig â throseddau difrifol pellach. Cyflwynwyd y gweithdrefnau adolygu SFO yn rhannol i gydnabod y cyd-destun gweithredol hwn.

**Gweithdrefnau hysbysu ac adolygu ar gyfer Troseddau Difrifol Pellach: Cyfarwyddyd Prawf 06/2018**

Dyroddwyd PI 06/2018 yn Awst 2018 ac mae'n disgrifio'r newidiadau mewn ymarfer adolygu SFO a gyflwynwyd o Ebrill 2018 (gweler 1.2 Cefndir). Mae crynodeb isod o ddiben y gweithdrefnau hysbysu ac adolygu SFO:

*Mae'r gweithdrefnau hysbysu ac adolygu SFO wedi'u bwriadu i sicrhau craffu trwyadl ar yr achosion hynny lle mae troseddwyr a reolir gan yr NPS neu gwmnïau adsefydlu cymunedol wedi'u cyhuddo o drosedd treisgar neu rywiol penodedig … er mwyn: -*

- *i'r cyhoedd gael sicrwydd bod yr NPS a chwmnïau adsefydlu cymunedol wedi ymrwymo i adolygu eu hymarfer mewn achosion lle mae troseddwyr a reolir ganddynt wedi cael eu cyhuddo o droseddu difrifol penodol;*
- *i feysydd i'w gwella a'r arferion gorau gael eu nodi'n glir, ynghyd â sut ac o fewn pa gyfnodau y cymerir camau mewn perthynas â'r cyntaf a pha welliannau a ddisgwylir o ganlyniad;*
- *gallu darparu gwybodaeth berthnasol i ddioddefwyr a'u teuluoedd ynghylch sut y cafodd y troseddwr ei oruchwylio a, lle'r oedd diffygion, sut y cymerwyd neu y cymerir camau i sbarduno gwelliannau;*
- *gallu hysbysu Gweinidogion, uwch-swyddogion eraill a rheolwyr a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gyfan am achosion proffil uchel o droseddau difrifol pellach honedig.*

Mae'r Cyfarwyddyd Prawf yn nodi cyfrifoldebau'r NPS, cwmnïau adsefydlu cymunedol a thîm SFO HMPPS. Dylai'r NPS ddynodi achosion SFO yn y gwrandawiad llys cyntaf a hysbysu'r darparwr gwasanaethau prawf sy'n rheoli'r achos. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau prawf hysbysu tîm adolygu SFO canolog HMPPS am yr achos SFO o fewn 10 diwrnod gwaith. Ar ôl rhoi hysbysiad am achos SFO, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau prawf gyflwyno'r adolygiad a chynllun gweithredu SFO i dîm SFO HMPPS o fewn tri mis. Wedyn bydd tîm SFO HMPPS yn sicrhau ansawdd y dogfennau o fewn 20 diwrnod ac yn rhoi adborth i'r darparwr. Mae'r broses hon wedi'i dangos yn

Ffigur 2.1:

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Tîm adolygu SFO HMPPS yn penderfynu a yw'r achos yn un proffil uchel | | | | | | |
| | | Nodi achosion proffil uchel dichonol gan y darparwr gwasanaethau prawf | | | | Yr Uned Gofal Tystion yn hysbysu'r dioddefwr/aelod o'r teulu am y trosedd difrifol pellach a'r hawl i gael datgeliad | Y dioddefwr/aelod o'r teulu yn gwneud cais am ddatgelu'r adolygiad SFO | Un o uwch-reolwyr y darparwr gwasanaethau prawf yn datgelu'r adolygiad SFO i'r dioddefwr |
| Ymddangos yn y llys am drosedd SFO cymwys | Hysbysu tîm SFO HMPPS o fewn 10 diwrnod gwaith i'r ymddangosiad llys cyntaf | Y darparwr gwasanaethau prawf yn edrych yn gynnar ar y trosedd difrifol pellach o fewn 10 diwrnod gwaith | Cwblhau'r adolygiad SFO a'i gyflwyno i dîm SFO HMPPS o fewn 3 mis | Tîm Adolygu HMPPS yn sicrhau ei ansawdd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl cael yr adolygiad SFO | 6 mis ar ôl cwblhau'r adolygiad SFO, y darparwr gwasanaethau prawf yn adrodd ar gynnydd ar y cynllun gweithredu i HMPPS | Cadarnhau euogfarn am drosedd difrifol pellach: hysbysu tîm adolygu SFO HMPPS o fewn 3 diwrnod gwaith | | |
| | Tîm SFO HMPPS yn cadarnhau ei fod yn achos SFO o fewn 3 diwrnod gwaith ar ôl ei hysbysu | | | | | | | |
| | Y darparwr gwasanaethau prawf yn hysbysu'r uned gofal tystion | | | | | | | |

*Ffigur 2.1. Y broses SFO*

Ochr yn ochr â'r briffiadau rhagarweiniol, rhoddwyd canllawiau manwl i staff ar y fformat newydd ar 29 Mawrth 2018, a oedd i raddau helaeth yn adlewyrchu'r canllawiau gweithredu terfynol a roddwyd ym Mehefin 2018. Yn ystod ein harolygiad, roedd arweinwyr cenedlaethol a lleol wedi cydnabod bod y newid yn arddull a fformat yr adolygiad yn fwy problemus nag a ragwelwyd i adolygwyr troseddau difrifol pellach.

Roedd fformat blaenorol yr adolygiad SFO yn canolbwyntio ar feysydd penodol mewn ymarfer prawf, fel asesu risg, ac roedd yn cael ei weld yn ailadroddus ac wedi'i seilio ar brosesau. Roedd y fformat naratif diwygiedig yn ceisio caniatáu hyblygrwydd i adolygwyr ganolbwyntio ar ddigwyddiadau pwysig a gwneud yr adolygiad yn hygyrch i ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd. Ni ragwelwyd y byddai'r fformat newydd yn arwain at gynnydd yn y llwyth gwaith wedi i adolygwyr ymaddasu i'r arddull newydd. Fodd bynnag, ein canfyddiad oedd bod rheolwyr adolygu yn parhau i ymaddasu i'r arddull naratif ac, yn benodol, i'r angen i'w wneud yn hygyrch i ddioddefwyr a'u teuluoedd.

Er mwyn cwrdd â'i ddibenion, mae'r adolygiad SFO yn cyflawni gwahanol rolau. Mae'n adolygiad rheolaeth fewnol, yn ddogfen ar gyfer dysgu ac yn adroddiad i'w ddatgelu i ddioddefwyr a'u teuluoedd. Gellir canolbwyntio ar wahanol bethau yn y meysydd hyn, a chawsom fod gwahaniaeth barn am y blaenoriaethau allweddol ar draws y sefydliadau a arolygwyd. Ar lefel genedlaethol, y farn oedd bod yr adolygiad SFO yn adolygiad rheolaeth fewnol a ddylai fod yn hygyrch i ddioddefwyr a'u teuluoedd. Ar lefel leol, roedd uwch-reolwyr yn rhoi mwy o bwyslais ar y deilliannau

dysgu a gwella a bennwyd yn y Cyfarwyddyd Prawf. Roedd staff rheng flaen yn gweld y broses fel adolygiad rheolaeth fewnol a oedd yn rhoi'r sylw pennaf i ganfod cyfrifoldeb unigolion am gamgymeriadau dichonol a wnaed yn yr achos. Er nad yw arweinwyr uwch yn rhannu'r farn hon, roedd rhai ohonynt yn cydnabod bod pwyslais cynyddol wedi bod ar weithdrefnau disgyblu a galluogrwydd yn y 12 mis cyn yr arolygiad. Y sylw gan un uwch-reolwr oedd:

*"Pwy yw'r gynulleidfa? Adolygiad rheolaeth fewnol, y dioddefwr neu anghenion y canol? Mae'r anghenion hyn yn cael eu pennu gan bwysau sefydliadol a gwleidyddol… "*

Mae'r dryswch hwn wedi'i ddwysáu drwy alw'r broses yn adolygiad trosedd difrifol pellach er nad yw manylion y trosedd pellach yn cael eu trafod yn uniongyrchol. Mae hyn yn ategu'r gred ymysg staff gweithredol fod y broses yn ymwneud yn bennaf â diffyg a bai. Yn ogystal â hyn, nid yw aelodau staff unigol yn cael gweld yr adolygiad gorffenedig. Mae angen gwneud y broses yn glir ac yn agored i'r holl bartïon cysylltiedig.

Gwahanol ddibenion yr adolygiad SFO sy'n pennu ei gynnwys a'i ffocws. Mae'r canllawiau gweithredol yn gofyn i'r adolygiad ganolbwyntio ar y ddedfryd a'r oruchwyliaeth a gafodd y defnyddiwr gwasanaethau cyn cyflawni'r trosedd difrifol pellach. Maent yn datgan y gellir defnyddio crynodebau, ond yn cyfarwyddo bod y gronoleg i gynnwys manylion 'digwyddiadau pwysig a materion sy'n dod i'r golwg', ac y dylai'r rhain gael eu dadansoddi yn yr adolygiad. Yn ein harolygiad, cawsom fod y cydymffurfio manwl â'r cyfarwyddyd hwn yn arwain yn aml at adolygiadau hir a dyrys a oedd weithiau'n rhoi sylw i ymarfer prawf hanesyddol a oedd wedi digwydd flynyddoedd lawer cyn y trosedd difrifol pellach ei hun. Dywedodd un darparwr gwasanaethau prawf fod ei gronolegau'n 60 tudalen o hyd ar gyfartaledd a'i adolygiadau'n 30 tudalen o hyd. Er bod rhaid ystyried yr holl wybodaeth sy'n hysbys i'r darparwr wrth edrych ar yr achos, yn ein barn ni nid oes angen cynnwys asesiad manwl o ymarfer hanesyddol fel arfer oni bai ei fod yn berthnasol i'r rheolaeth ar yr achos yn y cyfnod sy'n nes i'r trosedd difrifol pellach.

Mae Cyfarwyddyd Prawf PI 06/2018 yn cyfarwyddo darparwyr i 'edrych yn gynnar' ar achos trosedd difrifol pellach cyn gynted ag y bydd wedi'i nodi. Mewn diweddariad o'r canllawiau ar edrych yn gynnar a roddwyd gan HMPPS yn Ebrill 2019, mae darparwyr wedi'u cyfarwyddo i gwblhau adroddiad cryno a chynllun gweithredu i'w gyflawni ar unwaith o fewn 10 diwrnod ar ôl cyflawni trosedd difrifol pellach. Cyflwynir adroddiadau edrych yn gynnar ar achosion proffil uchel i Brif Swyddog Prawf Cymru a Lloegr. Gwneir hyn er mwyn cael gwybod a oes unrhyw bryderon sylweddol neu faterion ymarfer sy'n galw am weithredu ar unwaith gan reolwyr. Mewn rhai sefydliadau, cwblheir y dogfennau edrych yn gynnar gan adolygwyr SFO, ac mewn eraill fe'u cwblheir gan reolwyr gweithredol y tu allan i'r rheolaeth linell ar yr achos. Yn ein harolygiad, cawsom fod uwch-reolwyr yn gweld gwerth mawr yn y broses hon, gan ei bod yn eu galluogi i gymryd camau ar unwaith lle bo angen. Roedd hefyd yn dangos yn syth ble'r oedd gwersi i'w dysgu a'u gweithredu. Yn ein barn ni, dylai'r broses edrych yn gynnar gael ei datblygu ymhellach i'w throi'n adolygiad rheolaeth fewnol. Byddai hyn yn sicrhau bod adolygiad manwl o ymarfer prawf diweddar, ynghyd â chynllun gweithredu, yn cael eu cychwyn yn syth ar ôl cyhuddiad o drosedd difrifol pellach.

Roedd y Cyfarwyddyd Prawf PI 06/2018 diwygiedig hefyd yn parhau'r hawl sydd gan ddioddefwyr troseddau difrifol pellach awtomatig, a'u teuluoedd, i gael gwybodaeth yn dilyn adolygiad. Er 2015, roedd hawl gan ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd i gael adroddiad cryno i'r dioddefwr. Yn dilyn y newidiadau yn Ebrill 2018, roedd hawl ganddynt i gael dogfen lawn yr adolygiad SFO. Rhagwelwyd y byddai mwy o ymgysylltu â dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd o dan y trefniadau newydd, ond nid yw hyn wedi digwydd. Ar lefel genedlaethol, ni chofnodir cyfran y dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd sy'n gofyn am ddatgeliad. Fodd bynnag, mae darparwyr lleol yn adrodd bod y ffigur yn is o lawer, er enghraifft, na nifer y dioddefwyr sy'n optio i mewn i'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr, sef 42 y cant ar gyfartaledd ar draws rhanbarthau'r NPS.

## 2.2. Swyddogaeth adolygu troseddau difrifol pellach Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

Mae tîm adolygu SFO canolog HMPPS yn rhan o Grŵp Amddiffyn y Cyhoedd. Yn ogystal â sicrhau ansawdd, mae'n gyfrifol am bennu'r gwelliannau a'r gwersi strategol sydd i'w dysgu, yn unol â PI 06/2018. Mae'r tîm yn cynnwys rheolwr tîm, uwch adolygydd sicrhau ansawdd a phum adolygydd sicrhau ansawdd. Ar adeg yr arolygiad, roedd nifer sylweddol o swyddi gwag, gan mai dim ond 2.5 adolygydd sicrhau ansawdd a oedd mewn swydd. Cafwyd prinder staff cyson ers cyflwyno fformat newydd yr adolygiad SFO. Mae hyn wedi arwain at oedi hir wrth sicrhau ansawdd adolygiadau a gyflwynwyd, ac mae'r tîm wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddelio â'r ôl-groniad hwn. Roedd hyn yn cynnwys rhoi canllawiau diwygiedig i ddarparwyr gwasanaethau prawf ym Mehefin 2019 a oedd yn disgrifio dull o dargedu gwaith sicrhau ansawdd. Cymerir camau buan ar achosion proffil uchel ac achosion a ddatgelir a sicrheir ansawdd yr holl ddogfennau a gyflwynir.

Mae darparwyr gwasanaethau prawf yn tynnu sylw tîm adolygu SFO HMPPS at achosion a allai ennyn diddordeb mawr ymysg y cyhoedd ar lefel genedlaethol, ac mae'r tîm yn penderfynu a ddylid dynodi'r achos yn achos 'proffil uchel'. Y ffigur cyffredinol am achosion proffil uchel fel cyfran o'r holl hysbysiadau yw tua 14 y cant. Ar ôl cadarnhau bod yr achos yn un proffil uchel, mae disgwyl i'r darparwyr ddiweddaru'r tîm canolog ar hynt yr achos fel y gellir parhau i hysbysu gweinidogion ac uwch-swyddogion am hynny. Bydd y tîm canolog hefyd yn rhoi gwybod a yw proffil yr achos yn golygu bod angen iddo gael ei adolygu gan ddarparwr gwasanaethau prawf arall. Yn ein harolygiad, cawsom fod y broses hon yn effeithiol o ran cyflawni'r diben a nodwyd yn PI 06/2018.

Wrth sicrhau ansawdd adolygiadau SFO nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhai proffil uchel, rhoddir sylw i'r gronoleg, y prif ganfyddiadau a'r cynllun gweithredu. Nid yw adrannau'r fethodoleg, y crynodeb o ddigwyddiadau na'r camau nesaf yn mynd drwy broses sicrhau ansawdd. Mae'r dull targedu hwn wedi'i gymhwyso at 67 y cant o'r adolygiadau a gyflwynwyd i dîm adolygu SFO HMPPS ers ei gyflwyno ym Mehefin 2019. Dim ond adolygiadau anghyflawn, adolygiadau proffil uchel neu adolygiadau i'w datgelu i ddioddefwyr y disgwylir iddynt gael eu hailgyflwyno i'r tîm canolog i'w hailwirio yn dilyn yr adborth cyntaf ar sicrhau ansawdd. O ran gweddill yr adolygiadau, darparwyr gwasanaethau prawf fydd yn penderfynu a fyddant yn diwygio'r ddogfen wreiddiol ar ôl y broses sicrhau ansawdd. Mae hwn yn newid sylweddol yn y broses ac mae'n tanseilio rôl y tîm canolog o ran sicrhau ansawdd yr adolygiadau SFO. Mae darparwyr gwasanaethau prawf yn croesawu'r newid hwn, gan nad oes angen ailgyflwyno dogfennau bellach yn y rhan fwyaf o achosion ac mae'n caniatáu iddynt roi eu cynlluniau gweithredu ar waith yn syth.

Chwe mis ar ôl cyflwyno'r dull targedu, ni chafodd nemor ddim effaith ar yr oedi wrth gael adborth ar sicrhau ansawdd. Mae'r flaenoriaeth a roddir i sicrhau ansawdd adolygiadau sy'n debygol o ddod i sylw'r cyhoedd yn ddealladwy ac yn bragmataidd o ystyried prinder yr adnoddau sydd ar gael. Fodd bynnag, drwy greu dull dwy haen o weithredu, methir â rhoi blaenoriaeth i ddysgu gwersi a gwella yn yr holl achosion. O blith 116 o adolygiadau SFO a drafodwyd drwy'r dull targedu ar gyfer sicrhau ansawdd rhwng Mehefin a Thachwedd 2019, roedd yn rhaid ailgyflwyno tri ohonynt i'w trafod drwy'r broses lawn ar gyfer sicrhau ansawdd wedi i ddioddefwyr neu aelodau o'u teulu wneud cais am ddatgelu'r adolygiad. Os bydd cynnydd yn nifer y dioddefwyr sy'n gwneud cais am ddatgelu yn unol â bwriad y polisi, bydd y broses yn mynd yn fwy aneffeithlon oherwydd y dyblygu diangen hwn.

## 2.3. Is-adran Ymarfer Effeithiol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

Mae'r Is-adran Ymarfer Effeithiol yng Nghyfarwyddiaeth Berfformiad HMPPS yn galw cyfarfodydd chwarterol o'r grŵp cyfeirio cenedlaethol ar adolygiadau SFO. Mae rhanbarthau'r NPS yn cael eu cynrychioli ond nid oes fforwm cenedlaethol cyfatebol ar gyfer cwmnïau adsefydlu cymunedol. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys trosolwg strategol ar ddatblygiad staff mewn perthynas â throseddau difrifol pellach a hwyluso dull cyson o ymarfer a dysgu yng nghyswllt troseddau difrifol pellach. Roedd y grŵp wedi nodi bod diffyg dealltwriaeth o'r broses adolygu SFO ymysg staff gweithredol ar draws rhanbarthau'r NPS. Mewn ymateb i hyn, cynhyrchwyd pecyn briffio cynhwysfawr i'w gyflwyno

yn y rhanbarthau. Treialwyd hyn yn Llundain, a chafwyd adborth cadarnhaol amdano yn ystod yr arolygiad. Mae dysgu gwersi a nodi arferion da i'w lledaenu yn rhan o gylch gwaith y grŵp hwn hefyd. Mae rhai enghreifftiau da, fel y rheini sy'n ymwneud â galw'n ôl i'r carchar a'r broses edrych yn gynnar, lle mae hyn wedi digwydd. Mae'n glir, er hynny, nad yw'r grŵp cyfeirio yn meddu'r dulliau llywodraethu na'r adnoddau angenrheidiol i'w alluogi i wneud hyn mewn ffordd systematig.

## 2.4. Gweithredu'r broses adolygu SFO yn lleol

Roedd y darparwyr gwasanaethau prawf a arolygwyd yn credu mai prif bwrpas y broses adolygu SFO oedd dysgu gwersi a gwella ymarfer. Roedd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r broses a lefelau adnoddau sylweddol yn cael eu dyrannu ar ei chyfer. Lle'r oedd timau adolygu SFO arbenigol yn gweithredu, roedd 20 diwrnod gwaith yn cael eu neilltuo i adolygwyr i gwblhau'r adolygiad, er bod y cyfnod hwn yn hwy weithiau oherwydd cymhlethdod yr achosion. Roedd tri o ranbarthau'r NPS a arolygwyd wedi cyflwyno mwy na 100 o adolygiadau er Ebrill 2018 ac roedd y nifer a gyflwynwyd gan gwmnïau adsefydlu cymunedol yn amrywio rhwng 6 a 78.

Roedd y darparwyr yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas â hysbysu, yr adolygiad a'r cynlluniau gweithredu. Mae cwmnïau adsefydlu cymunedol yn rheoli llwythi achosion llai na rhanbarthau'r NPS ac, at ei gilydd, maent yn cwblhau llai o adolygiadau SFO. Mae rheolwyr gweithredol y cwmnïau adsefydlu cymunedol yn cwblhau'r adolygiadau mewn rhai sefydliadau, a chawsom fod yr ychwanegiad hwn i'w llwyth gwaith yn cyfyngu eu gallu i ddatblygu ymarfer mewn adolygu troseddau pellach difrifol. Mewn cwmnïau adsefydlu cymunedol eraill ac yn rhanbarthau'r NPS ceir timau ar wahân, wedi'u staffio gan uwch-swyddogion prawf, i gynnal adolygiadau SFO. Mae'r gwahanu hwn oddi wrth y strwythur rheoli llinell gweithredol yn cynnig rhywfaint o annibyniaeth ac yn caniatáu i adolygwyr ddatblygu eu hymarfer yn fwy effeithiol. Cydlofnodir yr adolygiadau gan uwch-reolwyr cyn eu cyflwyno i'r canol. Mewn un cwmni adsefydlu cymunedol a arolygwyd, roedd y cydlofnodi hwn yn cael ei wneud gan uwch-reolwyr yn strwythur rheoli llinell yr achos. Yn ein barn ni, nid yw hyn yn briodol ac mae'n tanseilio annibyniaeth y dyfarniadau a wneir. Yn rhanbarthau'r NPS ac yn y cwmnïau adsefydlu cymunedol, cymerwyd camau i sicrhau ansawdd cyn cyflwyno adolygiadau, yn unol â'r canllawiau a roddwyd gan dîm adolygu SFO HMPPS.

Mae'r broses adolygu SFO yn dechrau ar bwynt y gwrandawiad llys cyntaf am drosedd cymwys, ac yn aml fe gyflwynir y dogfennau adolygu i HMPPS cyn cael euogfarn ar ddiwedd yr achos. Mewn nifer sylweddol o achosion, cawsom fod adolygiadau'n cael eu cwblhau ar achosion a oedd heb arwain at euogfarn am drosedd difrifol pellach. O'r 71 o adolygiadau a gwblhawyd gan NPS Llundain ar achosion awtomatig rhwng Ebrill 2018 a Thachwedd 2019, roedd 21 ohonynt yn ymdrin ag achosion a oedd heb arwain at euogfarn am drosedd difrifol pellach. Ar adeg yr arolygiad, roedd 25 adolygiad yn parhau. Yn achos rhai darparwyr, mae bron 50 y cant o'r adolygiadau a gwblheir yn ymwneud ag achosion nad ydynt yn arwain at euogfarn am drosedd difrifol pellach. Mae'r graddau y mae adolygiadau'n cael eu cynnal mewn achosion lle na cheir euogfarn yn cael ei gadarnhau gan y ffaith mai dim ond mewn 49 y cant o adolygiadau SFO yn 2017/2018 y cafwyd euogfarn am drosedd difrifol pellach yn y diwedd.[15] Bydd HMPPS yn cyhoeddi ffigurau am ail euogfarnau ar gyfer 2018/2019 yn Hydref 2020. Er ein bod yn cydnabod bod modd dysgu gwersi o'r holl achosion, gellid cyflawni hyn cyn cael euogfarn drwy wella'r broses edrych yn gynnar yn hytrach na thrwy gynnal adolygiad llawn.

Roedd y rhan fwyaf o ardaloedd yn cydnabod bod y broses adolygu SFO yn codi pryderon ymysg staff. Roedd tîm adolygu SFO rhanbarth NPS Gorllewin Canolbarth Lloegr yn ymwybodol iawn o hyn. Roeddent wedi datblygu dull gweithredu ar y cyd a oedd yn cynnwys briffiadau tîm a gwell techneg cyf-weld. Er nad yw hyn wedi lleddfu ofnau staff gweithredol, mae wedi cynyddu'r ddealltwriaeth bod dysgu'n rhan o'r broses, ac roedd hyn yn glir yn ystod ein harolygiad.

---

[15] Cyfrifwyd ar sail Tabl 1 yn: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2019). *Serious Further Offences*. https://www.gov.uk/government/statistics/serious-further-offences

## 2.5. Casgliadau a goblygiadau

Mae'r broses adolygu SFO ddiwygiedig yn gweithredu fel adolygiad rheolaeth fewnol, adroddiad dysgu a dogfen i'w datgelu i ddioddefwyr a'u teuluoedd. Mae hyn wedi arwain at wahanol ffyrdd o ddeall ei phwrpas o fewn sefydliadau. Mae mabwysiadu fformat naratif ar gyfer yr adolygiad yn ddatblygiad cadarnhaol ond mae'r canllawiau gweithredu ar gyfer hyn wedi arwain at lunio adolygiadau rhy hir nad ydynt yn canolbwyntio bob amser ar y cyfnod goruchwylio sy'n berthnasol i'r trosedd difrifol pellach.

Cyflwynwyd dull targedu o sicrhau ansawdd i ddelio â'r ôl-groniad sylweddol a gododd er Ebrill 2018. Nid yw hyn wedi lleihau'r oedi wrth roi adborth i ddarparwyr gwasanaethau prawf, sy'n cynnal eu prosesau sicrhau ansawdd eu hunain cyn cyflawni cynlluniau gweithredu.

Mae adnoddau sylweddol yn cael eu buddsoddi i gwblhau adolygiadau SFO, ac mae nifer ohonynt yn ymwneud ag achosion nad ydynt yn arwain at euogfarn. Drwy ymestyn y broses edrych yn gynnar fel ei bod yn cyflawni diben adolygiad rheolaeth unigol i ddarparwyr gwasanaethau prawf, byddai modd tynnu sylw ar unwaith at faterion sy'n codi o ran staffio ac ymarfer. Gellid ei defnyddio hefyd i dynnu sylw'r canol at achosion proffil uchel dichonol ac i ddangos a ddylid cwblhau adolygiad SFO llawn cyn cael euogfarn. Roedd nifer o sefydliadau eisoes yn gwneud defnydd da o'r broses edrych yn gynnar ond mae'n ofynnol iddynt gychwyn adolygiad SFO llawn pa un a fydd yr unigolyn yn cael euogfarn wedyn neu beidio. Ym mwyafrif yr achosion, mae hyn yn golygu bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n aneffeithlon, a gwaethygir hyn gan yr oedi cyn cael adborth yn dilyn proses sicrhau ansawdd HMPPS.

# 3. Profiad dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd

Yn y bennod hon, byddwn yn adrodd ar dryloywder a hygyrchedd y broses adolygu SFO i ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd. Byddwn hefyd yn ystyried a yw'r broses yn cwrdd ag anghenion dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd. Yn olaf, byddwn yn ystyried effaith datgelu.

## 3.1. Hygyrchedd y broses

Prif nod y newid yn fformat yr adolygiad SFO yn Ebrill 2018 oedd gwneud y broses yn fwy tryloyw a hygyrch i ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd. O dan y trefniadau blaenorol, roedd dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd yn cael adroddiadau crynodeb defnyddwyr, a oedd yn crynhoi dogfen yr adolygiad SFO. Roedd y trefniadau newydd yn caniatáu i ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd gael dogfen lawn yr adolygiad mewn adolygiadau SFO awtomatig.

Roedd Cyfarwyddyd Prawf PI 06/2018 yn amlinellu proses lle byddai unedau gofal tystion yn gyfrifol am hysbysu dioddefwyr a'u teuluoedd am eu hawl i gael gweld adolygiad SFO ar adeg rhoi'r euogfarn. Rhagwelwyd y byddai hyn yn digwydd yr un pryd â'u hysbysu am y cynllun cyswllt dioddefwyr statudol.

Er Ebrill 2018, mae cyfran y dioddefwyr neu aelodau o'u teuluoedd a ddewisodd gymryd rhan yn y broses adolygu SFO wedi bod yn gymharol isel ac nid yw'r nifer sy'n gwneud cais am weld adolygiadau SFO yn cael ei dracio. Mae hyn yn peri syndod o gofio beth yw pwrpas datganedig y broses adolygu. Mae'n golygu na chafwyd adolygu na dadansoddi canolog o gyfradd y defnydd o'r broses nac o'r gwahaniaethau mewn tueddiadau rhwng ardaloedd.

Ar lefel leol, mae ceisiadau gan ddioddefwyr a'u teuluoedd am adolygiadau SFO yn cael eu cofnodi gan ddarparwyr gwasanaethau prawf ac roedd y nifer sy'n gwneud cais am weld adroddiadau yn ymddangos yn isel yn yr ardaloedd a arolygwyd gennym. Mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Northumbria wedi cwblhau saith adolygiad SFO o dan y broses newydd ac nid yw'r un o'r dioddefwyr nac aelodau o'u teuluoedd wedi gofyn am gopi o'r adroddiad. Yn rhanbarth NPS Gorllewin Canolbarth Lloegr y cafwyd y gyfradd uchaf o geisiadau, ond nid oedd hyn ond 17 y cant (pedwar achos) o'r adolygiadau SFO cymwys. Dywedodd y darparwyr na fu cynnydd yn nifer y ceisiadau gan ddioddefwyr a'u teuluoedd ers cyflwyno'r broses ddiwygiedig.

Roedd y rheswm dros y gyfradd isel o geisiadau yn destun pryder i'r darparwyr gwasanaethau prawf a arolygwyd. Nodwyd bod cysondeb y cysylltu gan yr unedau gofal tystion ac amseriad y cyfathrebu'n ystyriaethau posibl. Fel arfer bydd timau cynllun cyswllt dioddefwyr yn hysbysu dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd am eu hawl i weld adolygiadau os byddant yn optio i mewn i'r cynllun. Yn rhanbarth NPS Llundain, mae'r dull rhagweithiol hwn wedi arwain at bum cais am ddatgelu yn ddiweddar. Yn achos y dioddefwyr hynny ac aelodau o'u teuluoedd nad ydynt yn optio i mewn i'r cynllun cyswllt dioddefwyr, nid oes trefniadau ar gyfer cysylltu pellach yn dilyn eu hymwneud â'r uned gofal tystion.

Ar hyn o bryd, nid oes sicrwydd bod yr holl ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd yn cael eu hysbysu am eu hawl i weld adolygiadau SFO. Ar ben hynny, nid oes system genedlaethol ar gyfer coladu a dadansoddi'r ymgysylltu gan ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd. Mae hyn yn annerbyniol, yn enwedig o gofio mai nod y broses newydd yw cynyddu hygyrchedd. Yn Llundain, mae cynllun peilot wedi'i gynnig lle bydd timau cynllun cyswllt dioddefwyr yn gyfrifol am gysylltu â dioddefwyr troseddau difrifol pellach ac aelodau o'u teuluoedd. Credwn mai hwn yw'r dull gweithredu cywir ac y dylai timau cynllun cyswllt dioddefwyr yr NPS fod yn llwyr gyfrifol am gysylltu â dioddefwyr troseddau difrifol pellach ac aelodau o'u teuluoedd.

## 3.2. Barn dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd

Gan fod y nifer sydd wedi gofyn am ddatgelu adolygiadau yn fach, dim ond pump o ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd y gallem eu cyf-weld yn ystod yr arolygiad. Roedd yr unigolion a gyfwelwyd wedi mynegi bodlonrwydd â thryloywder y broses a'u cyfweliadau â'r uwch-reolwyr. Roedd adolygiad achos difrifol MAPPA wedi'i gynnal hefyd mewn un o'r achosion, ac roedd hyn wedi arwain at rywfaint o ddryswch am y gwahaniaeth rhwng y ddau adroddiad.

Roedd dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd yn gadarnhaol eu barn am arddull naratif yr adroddiad, er bod rhai wedi cael bod y cynnwys yn ddyrys a bod yr adolygiadau'n rhy gymhleth. Dywedodd un aelod o deulu:

***"Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl ond doeddwn i ddim yn meddwl y byddai'r adroddiad mor fanwl ag yr oedd. Fyddwn i ddim wedi'i ddeall heb gael y cyfarfod; byddai wedi bod yn annealladwy. Rydw i wedi gorfod ei ddarllen sawl gwaith wedyn i wneud synnwyr ohono. Cefais gyfle i ofyn cwestiynau ond roedd yn ormod i mi a wyddwn i ddim beth i'w ofyn ar y pryd".***

Fodd bynnag, roedd dioddefwyr eraill ac aelodau o'u teuluoedd wedi cael bod y cynnwys yn haws ei ddeall:

***"Roedd arddull yr adroddiad yn iawn. Mae'n anodd deall yr acronymau a'u dilyn. Roedden ni'n gweld bod rhaid cyfeirio at yr eirfa drwy'r amser i ddeall a dilyn y broses ond roedd hyn yn amharu ar y gallu i amgyffred beth oedd yn cael ei ddweud wrthych chi. Roedd angen ei ddarllen sawl gwaith. Roedd rhai pethau'n glir. Roedd y broses a'r cynllun yn iawn, wedi'u trefnu'n dda… roedden ni am wybod beth oedd y methiannau ac roedd yr adroddiad wedi egluro'r methiannau".***

Mae'n naturiol bod dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd yn canolbwyntio ar ansawdd ymarfer ac unrhyw ddiffygion a nodwyd. Rydym yn pryderu bod y sylw manwl i ymarfer prawf nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r trosedd yn rhywbeth a allai beri dryswch os na chaiff ei egluro mewn ffordd sensitif gan yr uwch-reolwyr.

Roedd dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd a gyfwelwyd yn teimlo bod y broses wedi'u helpu i ddeall beth oedd wedi digwydd ac roeddent yn gweld y broses yn un agored a gonest. Yn benodol, roeddent yn falch o gael y cyfle i drafod y canfyddiadau ag uwch-reolwyr prawf.

## 3.3. Datgelu i ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd

Mae Cyfarwyddyd Prawf PI 06/2018 yn nodi'n glir fod hawl gan ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd i gael copi o'r adolygiad llawn ac y dylai hwn gael ei ddarparu mewn cyfarfod ag uwch-reolwr. Mae darparwyr gwasanaethau prawf wedi datblygu eu harferion eu hunain ar gyfer datgelu adroddiadau i ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd. Hwyluswyd hyn drwy lunio canllawiau gan yr Is-adran Ymarfer Effeithiol. Fel arfer mae hyn yn golygu cynnal cyfarfod rhwng uwch-reolwyr a'r dioddefwr neu aelod o'i deulu lle mae swyddog cyswllt dioddefwyr hefyd yn bresennol. Roedd uwch-reolwyr wedi mynegi pryder ynghylch y cyfarwyddyd i ddarparu copi o'r adolygiad i ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd ym mhob achos. Yn eu barn nhw, nid yw datgelu yn y modd hwn yn ystyriol o'r posibilrwydd bod dioddefwyr yn agored i niwed nac o'r risg ddichonol i staff. Cyfeiriodd un rheolwr at achos lle'r oedd y dioddefwr, ar ôl y datgelu, wedi diflannu am wythnos cyn dod o hyd iddo mewn ysbyty seiciatrig. Mewn achos arall, gadawyd yr adolygiad llawn gyda'r dioddefwr a oedd yn parhau mewn perthynas â chyflawnwr y trosedd difrifol pellach.

Bydd uwch-reolwyr yn rhanbarth NPS Gorllewin Canolbarth Lloegr yn llenwi ffurflenni adborth ar ôl cwblhau'r datgelu i ddioddefwyr fel y gellir rhannu'r gwersi a ddysgir yn y cyfarfod. Ymhlith y gwersi a ddysgwyd y mae'r angen i baratoi'n drwyadl a sicrhau bod asesiad wedi'i wneud o'r graddau y mae'r dioddefwr yn agored i niwed cyn cynnal y cyfarfod. Mae'r adborth a gafwyd ganddynt yn

ategu'r pryder nad yw'r adolygiadau, oherwydd eu cymhlethdod, yn cwrdd ag anghenion dioddefwyr. Dywedodd un uwch-reolwr:

*"Roedd yr adolygiad yn 29 tudalen o hyd; fe'i rhoddwyd i'r dioddefwr yn y cyfarfod a chafodd ei lethu gan ei hyd a nifer y geiriau. Roedden ni wedi aros i roi amser iddi ddarllen y casgliad; fodd bynnag, mae hyd yn oed hynny'n ofyn mawr i rywun sydd heb arfer darllen 'adroddiadau' … Nid yw fformat presennol yr adroddiad yn fuddiol i ateb ei ddau ddiben; mae gormod o fanylion i'r dioddefwr ddelio â nhw mewn cyfarfod fel hwn".*

## 3.4. Casgliadau a goblygiadau

Mae dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd yn croesawu natur dryloyw'r broses datgelu. Er hynny, mae cynnwys yr adolygiadau'n anodd ei amgyffred gan rai dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd, ac nid yw bob amser yn berthnasol i amgylchiadau'r trosedd. Mae'r dadansoddiad o'r holl agweddau ar ymarfer prawf yn rhywbeth a all achosi dryswch. Felly mae'n bwysig bod uwch-reolwyr yn nodi'n glir beth yw pwrpas a ffocws y broses adolygu.

Er ei bod yn bwysig caniatáu datgeliad llawn i ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd, rhaid ystyried eu hamgylchiadau penodol. Dylai hyn gynnwys y risgiau dichonol sydd ynglŷn â datgelu i ddioddefwyr, aelodau o'u teuluoedd, staff ac aelodau o'r cyhoedd.

Mae nifer y ceisiadau am weld adolygiadau SFO yn isel o'i gymharu â'r gyfradd optio i mewn i'r cynllun cyswllt dioddefwyr. Ni chafwyd dadansoddiad o effeithiolrwydd y broses nac o'r graddau y mae dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd yn cael eu hysbysu am eu hawl i gael datgeliad o'r adolygiad. Yn ein barn ni, dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros hysbysu'r holl ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd am eu hawl drwy ei roi i dimau cyswllt dioddefwyr y gwasanaeth prawf.

# 4. Dysgu a sicrhau ansawdd

Yn y bennod hon, rydym yn adolygu'r broses sicrhau ansawdd gan gyfeirio at sampl o adolygiadau a arolygwyd. Rydym hefyd yn ystyried a yw'r gwersi a ddysgwyd o adolygiadau SFO yn cyfrannu at ddysgu ar lefel leol a chenedlaethol.

## 4.1. Sicrhau ansawdd

Darparwyd yr holl adolygiadau SFO a aeth drwy'r broses sicrhau ansawdd rhwng Ebrill 2018 a Hydref 2019 i'r arolygiad gan dimau adolygu SFO HMPPS. Dewiswyd 60 o adolygiadau a gwblhawyd rhwng Awst 2018 ac Ionawr 2019, ac yn unol â'r safonau a nodwyd yn y canllawiau gweithredol (Atodiad B, PI 06/2018), roeddem wedi sicrhau ansawdd 46 o ddogfennau adolygu SFO a gyflwynwyd i HMPPS gan ddarparwyr gwasanaethau prawf. Roeddem wedi archwilio'r holl ddogfennau adolygu SFO, yn cynnwys y gronoleg, yr adolygiad SFO, y cynllun gweithredu ac unrhyw ddogfennau a ailgyflwynwyd. Roeddem wedi cymharu ein sgoriau terfynol â'r dyfarniadau sicrhau ansawdd gan dîm SFO HMPPS. Nid oedd yr agwedd hon ar yr arolygiad yn cynnwys darllen ffeiliau rheoli achos na chyf-weld swyddogion cyfrifol a rheolwyr penodol ac, yn hyn o beth, roedd yn ailadrodd rôl HMPPS.

**Achosion yr adolygiadau SFO**

Mae'r troseddau a oedd wedi arwain at y 46 o adolygiadau SFO wedi'u rhestru yn nhabl 4.1.

| Tabl 4.1 Y troseddau a arweiniodd at adolygu yn yr adolygiadau SFO a arolygwyd | Nifer |
|---|---|
| Llofruddiaeth/Ymgais i lofruddio | 24 |
| Treisio (Adran 1 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*) | 11 |
| Achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus | 3 |
| Lladrad | 2 |
| Troseddau rhywiol gyda phlentyn o dan 13 oed | 3 |
| Llathruddo | 1 |
| Troseddau sy'n cynnwys ffrwydron | 1 |
| Cymryd car yn waethygedig sydd wedi achosi marwolaeth | 1 |

Mae'r risg o niwed difrifol a aseswyd ar adeg cyflawni'r trosedd difrifol pellach wedi'i dangos yn nhabl 4.2 isod.

| Tabl 4.2 Pa risg o niwed difrifol a aseswyd ar adeg cyflawni'r trosedd difrifol pellach? | Nifer | % |
|---|---|---|
| Mawr iawn | 1 | 2 |
| Mawr | 13 | 28 |
| Canolig | 28 | 61 |
| Bach | 2 | 4 |
| Nid yw'n glir/heb ei hasesu | 2 | 4 |

Roedd 19 o'r achosion ym gymwys i'w rheoli o dan drefniadau MAPPA ar adeg cyflawni'r trosedd difrifol pellach ac roedd pob un wedi'i reoli ar lefel un MAPPA.

### Arolygu adolygiadau SFO a gyflwynwyd gan ddarparwyr gwasanaethau prawf

Mae'r canllawiau gweithredol yn cyfarwyddo bod y gronoleg i restru'r holl ddigwyddiadau pwysig a gafwyd wrth oruchwylio'r achos. Dylai'r adolygiad SFO gynnwys dadansoddiad o'r dystiolaeth hon mewn perthynas ag asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu gwaith.

Fel y mae tabl 4.3 isod yn dangos, roeddem o'r farn bod mwyafrif yr adolygiadau wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r asesiad:

| Tabl 4.3 A yw'r adolygiad yn ystyried yr holl feysydd i'w hasesu a nodwyd yn y gronoleg? | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ydy | 40 | 87% |
| Nac ydy | 6 | 13% |

Ymhlith y digwyddiadau pwysig a nodwyd yn y gronoleg ac a oedd heb eu hystyried yn yr adolygiad yr oedd y posibilrwydd o gysylltiad â gang; pontio o Dimau Troseddau Ieuenctid i wasanaethau oedolion; rheoli amodau trwydded rheoli integredig troseddwyr; a gostwng y lefel rheoli MAPPA. Yn yr adolygiadau hyn, roedd y digwyddiadau a adawyd allan wedi cyfrannu at farn negyddol am y dadansoddiad o'r rheolaeth ar risg yn yr achos.

Mae'r rheolaeth ar risg mewn achos yn elfen ganolog yn y dyfarniadau a wneir mewn adolygiadau SFO a dylid datgan barn yng nghasgliad yr adolygiad ynghylch a gymerwyd camau rhesymol i reoli'r risg o niwed difrifol. Dylid seilio'r farn hon ar ddadansoddiad o'r ffactorau risg o niwed, effeithiolrwydd y gwaith amlasiantaethol ac ansawdd y cynllun rheoli risg yn yr achos sy'n cael ei adolygu. Cawsom fod y dadansoddiad o ffactorau risg o niwed a'r cynllun rheoli risg yn ddigonol mewn ychydig mwy na dwy ran o dair o'r adolygiadau, fel y mae tabl 4.4 yn dangos.

| Tabl 4.4 A yw dadansoddiad yr adolygiad o'r prif ffactorau risg o niwed a nodwyd yn y gronoleg yn un digonol? | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ydy | 31 | 67% |
| Nac ydy | 15 | 33% |
| A yw dadansoddiad yr adolygiad o'r cynllun rheoli risg yn un digonol? | | |
| Ydy | 32 | 70% |
| Nac ydy | 14 | 30% |

Yn y 14 o adolygiadau lle barnwyd bod y dadansoddiad o'r cynllun rheoli risg yn un annigonol, roedd y meysydd a nodwyd gan arolygwyr yn cynnwys y posibilrwydd bod y defnyddiwr gwasanaethau'n gysylltiedig â throseddu cyfundrefnol; effeithiolrwydd y camau ar y cyd gan asiantaethau; a methu ag asesu'n llawn ar ôl galw'r defnyddiwr gwasanaethau yn ôl i'r carchar cyn hynny. Roedd y rhain yn ddiffygion sylweddol lle'r oedd potensial clir i gymryd camau a dysgu gwersi.

**Enghraifft o ymarfer: dadansoddi cyfyngedig**

Roedd Andy wedi cael Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid pan gafwyd ef yn euog o gyflawni llofruddiaeth. Roedd yn hysbys ei fod yn agored i ddylanwad unigolion hŷn ac roedd yn gysylltiedig â throseddu cyfundrefnol. Roedd hefyd yn dad i blentyn ifanc. Ychydig llai na 12 mis cyn cyflawni'r trosedd difrifol pellach, cafodd Andy ei drosglwyddo o'r Tîm Troseddau Ieuenctid i wasanaethau oedolion er mwyn rheoli'r gorchymyn a gafodd.

Cafwyd camgymeriadau ymarfer sylweddol yn yr achos hwn. Ni chynhaliwyd adolygiad o'r achos gan wasanaethau oedolion ar unrhyw adeg ar ôl ei drosglwyddo; roedd lefel y cyswllt yn annigonol; roedd camau gorfodi wedi'u gohirio; ac nid oedd y swyddog cyfrifol yn ymwybodol o gysylltiad Andy â throseddu cyfundrefnol er bod y wybodaeth hon ar gael. Ni wnaed gwiriadau diogelu ar gyfer amddiffyn plant mewn perthynas â mab Andy.

Roedd yr adolygiad SFO yn fanwl ond roedd y dadansoddiad o'r prif faterion ymarfer mewn perthynas â'r risg o niwed yn un cyfyngedig. Nid oedd yn cynnig dadansoddiad digonol o'r rhesymau dros ddiffyg dull ymchwilio, y methiant i wneud gwiriadau diogelu neu effeithiolrwydd y dull o gyfnewid gwybodaeth rhwng asiantaethau. Yn benodol, ni roddwyd sylw i'r diffygion yn y broses pontio rhwng gwasanaethau ieuenctid a gwasanaethau oedolion.

Nodwyd y diffygion yn yr adolygiad hwn gan dîm SFO HMPPS a'r sgôr sicrhau ansawdd ar gyfer yr adolygiad oedd 'angen ei wella'. Roedd hyn yn gyson ag asesiad yr arolygiad. Rhoddwyd sylw i'r prif fylchau mewn ymarfer ac roedd y cynllun gweithredu yn cynnwys camau ar faterion ymarfer ar gyfer unigolion a'r darparwr gwasanaethau prawf. Dylid coladu'r canfyddiadau o'r adolygiad hwn ac eraill tebyg iddo a'u defnyddio i gael gwell dealltwriaeth o'r rhesymau dros wneud camgymeriadau a, lle bo angen, i gyfrannu at bolisi prawf a'r perthnasoedd ag asiantaethau allanol.

Roeddem o'r farn bod mwy na thri chwarter yr adolygiadau'n cynnwys dyfarniad clir ynghylch a oedd camau rhesymol wedi'u cymryd i reoli'r risg o niwed difrifol. Fel y mae tabl 4.5 isod yn dangos, mae hyn yn gadael 10 adolygiad lle nad oedd dyfarniad clir wedi'i wneud.

| Tabl 4.5 A yw'r adolygiad SFO yn rhoi dyfarniad clir ynghylch a oedd yr holl gamau rhesymol wedi'u cymryd i reoli'r risg o niwed difrifol yn yr achos hwn? | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ydy | 36 | 78% |
| Nac ydy | 10 | 22% |

Gellir priodoli'r diffyg eglurder hwn yn rhannol i'r ffaith bod adolygwyr SFO yn parhau i ymaddasu i arddull naratif yr adolygiad. Fodd bynnag, un o brif ofynion y broses adolygu SFO yw bod dyfarniadau o'r fath yn cael eu gwneud er mwyn nodi gwersi priodol i'w dysgu. Yn yr adolygiadau diffygiol, nid oedd yr ymarfer o ran diogelu, y posibilrwydd o hunan-niweidio a rhannu gwybodaeth yn cael ei ddadansoddi'n effeithiol mewn perthynas â'r trosedd difrifol pellach a ddilynodd. Roedd yr adolygiadau sy'n dod i gasgliadau clir ar reoli risg mewn achosion yn rhoi darlun gwell o effeithiolrwydd ymarfer prawf.

**Enghraifft o ymarfer da**

Roedd gan Ben hanes o droseddu rhywiol a chafodd ei ryddhau ar drwydded yn dilyn dedfryd hir o garchar am drosedd rhywiol difrifol. Cafodd ei roi mewn mangre a gymeradwywyd gan y gwasanaeth prawf a'i reoli ar y dechrau ar lefel 2 MAPPA. Roedd gwasanaethau priodol yn ymwneud â'i reoli ac roedd y swyddog cyfrifol yn cadw golwg clir ar reoli'r risg yn achos Ben.

Yn dilyn ei leoli yn y fangre a gymeradwywyd, symudodd Ben i lety annibynnol ac roedd hyn wedi arwain at drosglwyddo'r oruchwyliaeth drosto i swyddog cyfrifol arall. Parhaodd Ben i gwrdd â gofynion ei drwydded ac i gwrdd â'i swyddog cyfrifol. Fodd bynnag, dri mis ar ôl ei ryddhau o'r carchar, fe'i cyhuddwyd o drosedd rhywiol pellach.

Mae'r adolygiad yn gwneud dyfarniadau cytbwys mewn perthynas â'r ffactorau risg allweddol a'r cynllun rheoli risg. Mae'n glir o ran ei ddyfarniad bod yr holl gamau rhesymol wedi'u cymryd i reoli'r achos. Mae'r dadansoddiad hwn yn tynnu sylw at gynllunio effeithiol ar gyfer ei ryddhau gan y swyddog cyfrifol ac yn nodi bod hyd y lleoliadau mewn mangre a gymeradwywyd a'r polisi ar drosglwyddo achosion yn feysydd ar gyfer adolygu a dysgu. Mae gwelliannau mewn hyfforddi a meysydd i'w gwella wedi'u nodi hefyd mewn perthynas â swyddogion cyfrifol a rheolwyr gweithredol.

Roedd arolygwyr yn cytuno â'r sgôr 'da' a roddwyd gan dîm SFO HMPPS ar gyfer yr achos hwn.

Cawsom fod pob un ond tri o'r adolygiadau (93 y cant) wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i weithredu ac adolygu'r gwaith a gyflawnwyd yn yr achos.

Un pwyslais mawr yn y broses SFO yw bod meysydd ymarfer da i gael eu nodi er mwyn eu lledaenu ar lefel leol neu genedlaethol. Yn ein sampl, dim ond mewn 57 y cant (26) o'r adolygiadau yr oedd y rhain wedi'u nodi ac roedd pob un ohonynt i gael ei ledaenu ar lefel leol. Ymysg y meysydd a nodwyd yr oedd y trosolwg gan reolwyr; rhannu gwybodaeth i asesu risg; a chynnwys ymweliadau â'r carchar wrth gynllunio dedfrydau. Roedd tîm adolygu SFO HMPPS a'r adolygwyr SFO yn unfryd yn eu barn nad yw ymarfer disgwyliedig yn gyfystyr ag ymarfer da oni bai ei fod yn parhau o dan amgylchiadau anffafriol. Fe gawsom rai enghreifftiau a ddylai fod wedi'u nodi'n arferion da, yn cynnwys y rheolaeth gan swyddog cyfrifol dros unigolyn heriol, a oedd wedi'i alluogi i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a llety.

Roedd camau gweithredu sefydliadol wedi'u pennu mewn 70 y cant (32) o'r achosion, ond mae bron pob un o'r rhain yn cyfeirio at ymarfer timau neu unedau lleol. Roedd mwyafrif y camau gweithredu ar gyfer unigolion. Anaml yr oedd meysydd i'w gwella wedi'u nodi mewn perthynas â strategaeth, polisi neu weithdrefn. Roedd adolygwyr SFO ym mhob un o'r wyth sefydliad a arolygwyd yn gytûn wrth ddweud ei bod yn anodd gwneud argymhellion ar bolisi a gweithdrefnau ar sail un achos. Yn ogystal â hyn, mae'r canllawiau gweithredol a'r adborth ar sicrhau ansawdd yn rhoi mwy o sylw i gamau gweithredu gan unigolion na chamau gweithredu sefydliadol. Fel y mae'r enghraifft isod yn dangos, mae'r pwyslais hwn ar gamau gweithredu gan unigolion ar eu pen eu hunain yn golygu bod modd colli cyfleoedd i ddysgu gwersi gan y sefydliad cyfan.

**Enghraifft o ymarfer: colli cyfleoedd ar gyfer dysgu ehangach**

Cafodd Tim ddedfryd hir o garchar am droseddau treisgar difrifol, a oedd yn gysylltiedig â defnyddio cyffuriau Dosbarth A, a gyflawnwyd pan oedd ar drwydded. Roedd ganddo hanes o ymddygiad difeddwl ac roedd ei agwedd yn heriol, yn enwedig tuag at ffigurau mewn awdurdod.

Rhyddhawyd Tim i hostel prawf a rheolwyd ei achos fel achos rheoli integredig troseddwyr, lle'r oedd yr heddlu'n cymryd rhan weithredol. Yn syth ar ôl ei ryddhau, cyfaddefodd ddefnyddio cyffuriau Dosbarth B. Cafwyd canlyniadau cadarnhaol wedyn i brofion pellach am ddefnyddio cyffuriau Dosbarth A. O fewn deg mis ar ôl ei ryddhau, cafodd ei arestio am gyflawni rhagor o droseddau treisgar, ac roedd hyn wedi sbarduno adolygiad SFO.

Roedd y cynllun gweithredu SFO yn ymdrin yn bennaf ag ymarfer prawf unigolion. Ni thynnwyd sylw at y materion sefydliadol canlynol:

- Polisi'r hostel prawf. Cafodd Tim ei symud allan ar ôl tri mis, yn unol â'r polisi, er nad oedd ei ymddygiad yn dangos unrhyw arwydd o sefydlogrwydd.
- Rheoli integredig troseddwyr. Ni ddadansoddwyd y cyfraniad gan y dull rheoli integredig troseddwyr a'r cyfraniad gan yr heddlu at reoli'r achos.
- Polisi galw'n ôl. Roedd y trosedd mynegai yn gysylltiedig â defnyddio cyffuriau Dosbarth A, a arweiniodd at drosedd treisgar. Nid oedd y canlyniadau cadarnhaol i brofion cyffuriau wedi arwain at ei alw'n ôl ond, er hynny, nid oedd agwedd y sefydliad at alw'n ôl wedi'i nodi ar gyfer ei adolygu.
- Polisi MAPPA a deall y meini prawf ar gyfer rheoli achosion ar lefel dau.
- Llwyth gwaith swyddogion prawf. Roedd llwythi gwaith y ddau swyddog prawf yn yr achos hwn yn cyfateb i 130–150 y cant ar yr offeryn rheoli llwythi gwaith.

**Sgoriau sicrhau ansawdd**

Yn dilyn y broses sicrhau ansawdd, bydd tîm adolygu SFO HMPPS yn asesu'r adolygiadau a'r cynlluniau gweithredu ac yn rhoi sgôr 'da', 'boddhaol' neu 'angen ei wella'. Mae'r sgoriau a ddarparwyd wedi cael eu hystyried yn 'sgoriau cysgodol' ers cyflwyno'r broses ddiwygiedig yn Ebrill 2018 ac nid ydynt wedi'u cynnwys ym mesurau perfformiad y darparwyr gwasanaethau prawf.

Roedd arolygwyr yn cytuno â'r sgoriau a roddwyd i'r adolygiadau SFO lleol gan dîm canolog HMPPS mewn 83 y cant (38) o'r achosion ac, fel y mae tabl 4.6 yn dangos, roedd lefel y cysondeb rhwng asesiadau'n uchel. Er enghraifft, roedd adolygwyr SFO HMPPS wedi rhoi sgôr 'angen ei wella' i 48 y cant o'r adolygiadau o'i gymharu â sgôr gyfatebol o 52 y cant gan yr arolygwyr.

| Tabl 4.6 Yn dilyn y broses sicrhau ansawdd, pa sgôr a roddwyd i'r adolygiad SFO (gan dîm adolygu SFO HMPPS)? | Sgôr HMPPS | Sgôr Arolygiaeth Prawf EM |
|---|---|---|
| Angen ei wella | 22 (48%) | 24 (52%) |
| Boddhaol | 7 (15%) | 8 (18%) |
| Da | 17 (37%) | 14 (30%) |

Mewn perthynas â chynlluniau gweithredu, cytunai arolygwyr â'r sgoriau mewn 76 y cant (35) o'r achosion. O'r rhain, roedd y tîm sicrhau ansawdd wedi rhoi sgôr 'angen ei wella' mewn 52 y cant o'r achosion o'i gymharu â sgôr o 54 y cant gan yr arolygwyr (tabl 4.7 isod). Roedd rhesymau'r arolygwyr dros anghytuno â sgoriau'r adolygiadau yn amrywio ac nid oedd unrhyw batrymau wedi dod i'r golwg.

| Tabl 4.7 Yn dilyn y broses sicrhau ansawdd, pa sgôr a roddwyd i'r cynllun gweithredu SFO (gan dîm adolygu SFO HMPPS)? | Sgôr HMPPS | Sgôr Arolygiaeth Prawf EM |
|---|---|---|
| Angen ei wella | 24 (52%) | 25 (54%) |
| Boddhaol | 11 (24%) | 14 (31%) |
| Da | 11 (24%) | 7 (15%) |

Mae darparwyr gwasanaethau prawf yn teimlo rhwystredigaeth oherwydd yr oedi cyn rhoi adborth sicrhau ansawdd. Er bod y broses i fod i gymryd 20 diwrnod, mae'n cymryd mwy na chwe mis ar gyfer nifer mawr o adolygiadau. Dywedodd un uwch-reolwr fod cyfnod yr oedi yn golygu bod yr adborth ar nifer o achosion yn dod i law "*yn rhy hwyr i fod yn ddefnyddiol*". Gellir cymryd camau gweithredu ychwanegol yn erbyn staff gweithredol ar ôl cael yr adborth ar ansawdd wedi'r oedi. Mae hyn yn dwysáu'r pryder y maent yn ei deimlo ac, yn ein barn ni, mae'n golygu rhoi pwysau ychwanegol diangen ar unigolion a thimau staff. Dywedodd un ohonynt:

***"Mae'n golygu ein bod yn cael ein gadael i boeni am ganlyniad terfynol yr achos. Mae teimlad cyson o fod yn wynebu barn".***

Yn ogystal â hyn, mae'r oedi hwn yn lleihau'r effaith o unrhyw bwyntiau dysgu ychwanegol sydd yn yr adborth sicrhau ansawdd. Bydd darparwyr gwasanaethau prawf yn rhoi'r cynlluniau gweithredu ar waith ar ôl cwblhau'r adolygiadau ac yn aml bydd yr adborth yn dod i law ar ôl rhoi'r cynlluniau ar waith. Ac eithrio'r adolygiadau proffil uchel ac adolygiadau i'w datgelu i ddioddefwyr sy'n cael eu prosesu'n gyflymach, roedd yr holl ddarparwyr a arolygwyd wedi profi oedi o fwy na chwe mis cyn cael adborth. Er enghraifft, roedd rhanbarth NPS Gogledd-ddwyrain Lloegr wedi cyflwyno 100 o adolygiadau SFO rhwng Ebrill 2018 a Thachwedd 2019. O'r 24 o achosion a oedd yn gymwys i'w datgelu i ddioddefwyr, roedd tri dioddefwr wedi gofyn am ddatgeliad, ac roedd y broses sicrhau ansawdd wedi'i chyflymu ar eu cyfer. Ar adeg ein harolygiad ym mis Tachwedd 2019, roedd 16 o adolygiadau a gyflwynwyd cyn diwedd Mai 2019 nad oedd adborth sicrhau ansawdd wedi'i roi ar eu cyfer eto.

Yn gyffredinol, roedd darparwyr gwasanaethau prawf yn dweud bod eu perthynas â thîm adolygu SFO HMPPS yn un gadarnhaol, er bod barn gyffredin bod yr adborth sicrhau ansawdd yn gallu bod yn anghyson. Gan fod yr adborth gan y tîm cenedlaethol yn canolbwyntio ar ymarfer unigolion, wedi'i seilio'n aml ar ddyfarniadau proffesiynol amrywiol, nid yw'r proses, yn eu barn nhw, yn cynnig gwersi i'w dysgu yn rheolaidd. Oherwydd y dull targedu o sicrhau ansawdd, mae'r adborth yn cael ei weld yn gynghorol yn y rhan fwyaf o achosion, gan nad oes gofyniad i ailgyflwyno'r adolygiadau. Mae darparwyr gwasanaethau prawf eisoes yn cynnal proses gynhwysfawr i sicrhau ansawdd adolygiadau a chynlluniau gweithredu cyn eu cyflwyno i dîm HMPPS. Yn y cwmnïau adsefydlu cymunedol, cyflawnir hyn gan uwch-reolwyr. Yn yr NPS, bydd rheolwr y tîm adolygu SFO yn sicrhau ansawdd yr achos cyn ei gymeradwyo gan bennaeth uned amddiffyn y cyhoedd. Mae'r broses leol hon ar gyfer sicrhau ansawdd yn cymryd o leiaf un diwrnod ar gyfer pob adolygiad. Roedd y trefniadau gorau'n amserol ac wedi'u seilio ar wybodaeth dda ac wedi arwain at adolygiadau a oedd yn gyson â'r sgoriau a roddwyd gan y tîm adolygu SFO canolog.

**Enghraifft o ymarfer da:**

Yn NPS Llundain, cyflawnir y broses leol ar gyfer sicrhau ansawdd gan y rheolwr adolygu SFO, sy'n annibynnol ar y strwythur gweithredol. Ar ôl eu cwblhau, bydd yr adolygiad a'r cynllun gweithredu yn cael eu hasesu drwy broses sicrhau ansawdd ar sail canllawiau gweithredol a'r safonau sydd wedi'u gosod gan dîm adolygu SFO HMPPS. Wedyn cytunir ar newidiadau a gwelliannau mewn cyfarfod â'r adolygydd SFO a chaiff y dogfennau eu gwirio eto gan y rheolwr cyn eu cyflwyno i'r tîm adolygu SFO canolog. Fel arfer bydd y broses hon yn cael ei chwblhau ar ôl 1 i 1.5 diwrnod.

Erbyn hyn, mewn 90 y cant o'r adolygiadau, mae'r adborth gan y tîm canolog yn gadarnhaol.

### 4.2. Dysgu strategol

Nodir yng Nghyfarwyddyd Prawf PI 06/2018 fod 'dysgu a gwella ar lefel strategol yn ogystal â lefel leol' yn fater allweddol i'w ystyried yn y broses adolygu SFO. Mae'r canllawiau gweithredol yn nodi'n glir fod tîm adolygu SFO HMPPS i ddatblygu polisi a chanllawiau cenedlaethol ar droseddau difrifol pellach yn ogystal â chyfrannu at bolisi ac ymarfer mewn meysydd eraill yn HMPPS.

Mae materion a nodwyd gan y tîm canolog mewn achosion proffil uchel wedi dylanwadu ar ymarfer. Er enghraifft, mae ymarfer galw'n ôl wedi'i adolygu mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth â'r heddlu. Mae Is-adran Ymarfer Effeithiol yr NPS wedi gwneud defnydd o bwyntiau dysgu ar droseddau difrifol pellach i ddarparu sesiwn briffio saith munud ar ymarfer mewn perthynas â MAPPA, rhyddhau ar drwydded dros dro, uwchgyfeirio risgiau a ViSOR.

Cofnodir data allweddol o hysbysiadau a dogfennau a gyflwynir ar droseddau difrifol pellach. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am droseddau sy'n ymwneud â chyllyll, er enghraifft. Caiff ei rhannu â Phrif Swyddog Prawf Cymru a Lloegr a rhanbarthau'r NPS yn y grŵp cyfeirio SFO. Fodd bynnag, nid yw'r data hyn yn cael eu dadansoddi mewn ffordd systematig. Yn yr un modd, nid yw themâu a all godi o adolygiadau SFO, fel digartrefedd, diffyg cymorth iechyd meddwl, llwythi gwaith a darparu ymyriadau, yn cael eu coladu a'u dadansoddi i helpu i ffurfio polisi ac ymarfer. Oherwydd prinder staff, mae'r tîm SFO yn canolbwyntio ar gynnal asesiadau sicrhau ansawdd i ddelio â'r ôl-groniad o waith. Yn ein barn ni, mae'r diffyg sylw i ddysgu gwersi mewn ffordd systematig yn golygu bod cyfleoedd wedi'u colli i gyfrannu at bolisi a gweithdrefnau cenedlaethol.

Yn aml, mae'r canfyddiadau am ymarfer prawf a nodir mewn adolygiadau SFO yn gyson â'r canfyddiadau mewn archwiliadau sicrhau ansawdd mewnol ac arolygiadau Arolygiaeth Prawf EM. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau rheoli risg anghyflawn; cofnodi gwael; diffyg trosolwg gan reolwyr; diffyg dull gweithredu ymchwiliol. Mae'r rhain yn ganfyddiadau pwysig ac mae'r ffaith eu bod yn codi droeon, heb ddadansoddiad systematig o'r ciplun bach (tua 0.2%) ond pwysig hwn o'r llwyth achosion prawf, yn destun pryder.

### 4.3. Dysgu lleol

Roedd prosesau ar waith gan wyth o'r darparwyr gwasanaethau prawf a arolygwyd i goladu a lledaenu gwersi a chamau gweithredu perthnasol. Yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd-ddwyrain Lloegr, mae rheolwyr o'r NPS a chwmnïau adsefydlu cymunedol yn cwrdd i rannu gwersi ar droseddau difrifol pellach. Yn y sefydliadau mwyaf effeithiol, ceir llinellau atebolrwydd clir, a chyfrifoldebau sydd wedi'u disgrifio'n glir ar lefel yr uwch-swyddogion a'r swyddogion gweithredol. Roedd timau adolygu SFO ar wahân yn holl ranbarthau'r NPS ac mewn dau o'r cwmnïau adsefydlu cymunedol a arolygwyd. Cawsom mai hwn oedd y model gorau ar gyfer adnabod, coladu a lledaenu pwyntiau dysgu allweddol.

**Enghraifft o ymarfer da:**

Cyflawnir adolygiadau SFO yng Nghymru gan y tîm Amddiffyn y Cyhoedd a Mangreoedd a Gymeradwywyd, sy'n cynnwys pedwar rheolwr craffu ar ansawdd sy'n annibynnol ar y strwythur rheoli troseddwyr. Byddant hefyd yn cyflawni'r broses edrych yn gynnar ar ôl dynodi achosion perthnasol. Mae'r rheolwyr craffu ar ansawdd yn cynnal cyfweliadau â staff mewn ffordd gynhwysol. Anogir swyddogion cyfrifol i'w cysgodi er mwyn chwalu camsyniadau am y broses SFO.

Mae'r tîm yn mynd ati mewn ffordd systematig i gofnodi'r holl wersi a chamau gweithredu a gododd o'r 39 o adolygiadau SFO y mae wedi'u cwblhau er Ebrill 2018. Caiff y rhain eu coladu ochr yn ochr â gwersi a ddysgwyd o ffynonellau eraill, fel archwiliadau mewnol. Nodwyd naw thema dysgu allweddol mewn adolygiadau SFO:

- gorddibynnu ar hunanddatgelu gan y defnyddiwr gwasanaethau
- gwiriadau mwy dibynadwy o gyfeiriadau
- gwella ymarfer gorfodi
- cynllunio diogelwch ar gyfer achosion cam-drin domestig
- gwell trosolwg gan reolwyr
- gwella ansawdd cofnodion
- cydymffurfio'n well â phrosesau MAPPA
- adolygu achosion yn dilyn digwyddiadau pwysig
- ansawdd yr asesu a chynllunio.

Mae'r rhain yn sail i'r cynlluniau gweithredu ymarfer gorau ym mhob uned gyflawni ac yn cael eu lledaenu:

- yng nghyfarfodydd yr uwch dîm arwain gan Bennaeth Amddiffyn y Cyhoedd a Mangreoedd a Gymeradwywyd
- yng nghyfarfodydd chwarterol y grŵp ymarfer gorau sydd o dan arweiniad ymarferwyr a lle mae rheolwyr craffu ar ansawdd yn bresennol – cyfarfodydd i staff gweithredol yw'r rhain
- mewn briffiadau ychwanegol gan reolwyr tîm a rheolwyr craffu ar ansawdd
- yng nghyfarfodydd 'Dysgu Cymru' – cyfarfodydd chwarterol sy'n cynnwys ymarferwyr lle edrychir ar achosion yn fanwl a lle gellir sicrhau bod cynlluniau gweithredu wedi'u cyflawni.

Mae'r broses adolygu SFO yn pennu bod y broses dysgu yn un sy'n digwydd 'o'r brig i lawr' gan mwyaf. Cynhelir adolygiadau gan reolwyr dynodedig, maent yn mynd drwy broses sicrhau ansawdd fewnol ac yn cael eu cydlofnodi, ac wedyn yn mynd drwy broses sicrhau ansawdd y tîm SFO canolog. Cyfwelir swyddogion cyfrifol a rheolwyr gweithredol, ond rhoddir y sylw mwyaf i'r camau a gymerwyd a'r prosesau a ddilynwyd gan y swyddog cyfrifol. Yn ôl y canllawiau gweithredol, un agwedd ar ymarfer da yw sicrhau bod unrhyw staff (yn cynnwys rheolwyr) sy'n gysylltiedig â rheoli'r achos yn cael adborth am y deilliannau hynny yn yr adolygiad SFO sy'n ymwneud â nhw'n uniongyrchol ac y caiff rheolwyr ystyried darparu copi o'r adolygiad i staff, ar ôl hepgor unrhyw rannau ohono sy'n briodol. Fodd bynnag, cawsom mai proses o'r brig i lawr oedd hon lle nad yw staff gweithredol yn cael gweld yr adolygiad ac felly lle nad ydynt yn gallu rhoi adborth ar eu barn am ganfyddiadau'r ymchwiliad.

Mae swyddogion cyfrifol yn derbyn yr angen am atebolrwydd a bod angen cyrraedd y safonau uchaf yn eu hymarfer er mwyn amddiffyn y cyhoedd. Mae'r broses adolygu SFO yn cael ei chyflwyno iddynt fel proses dysgu gadarnhaol nad yw'n rhagdybio cyswllt achosol rhwng ymarfer prawf a'r trosedd difrifol pellach. Er hynny, barn negyddol sydd gan staff gweithredol am y broses adolygu SFO ac maent yn credu ei bod yn canolbwyntio ar fwrw bai ac atebolrwydd yr unigolyn yn hytrach na dysgu. Rhai o'r sylwadau a gafwyd oedd:

*"Roedd yn broses ofnadwy i orfod mynd drwyddi".*

*"Mae cael trosedd difrifol pellach yn brofiad cywilyddus ac rydych chi'n teimlo'n euog er bod y trosedd yn amhosibl ei rag-weld yn aml".*

*"Yn yr ymchwil i droseddau difrifol pellach, cymerir bod yr amgylchedd gweithio'n un delfrydol a rheoledig ac mae'r disgwyliadau o ran ymarfer a phenderfynu'n afresymol. Mae'r achos yn cael ei arolygu fel petai'n rhywbeth ar wahân ac nid yw'n cael ei weld yng nghyd-destun y llwythi achosion mawr".*

*"Nid yw'r broses yn ymwneud â dysgu; mae'n ymwneud â beio a chyfrifoldeb yr unigolyn. Mae'r broses yn canolbwyntio ar fanylion sydd heb fod yn berthnasol i'r trosedd".*

Yn aml, mae'r disgwyliadau o ran ymarfer mewn cynlluniau gweithredu yn cael eu gweld yn afresymol yng nghyd-destun eu profiad o wir natur y diwylliant gweithredu, yn enwedig lle mae adnoddau'n brin. Mae'r diffyg tryloywder i staff gweithredol sy'n ymwneud â'r broses yn dwysáu'r persbectif negyddol hwn.

Mae'r diwylliant o ofn sy'n deillio o'r broses adolygu SFO wedi cyfrannu at ymarfer gweithredol amddiffynnol. Soniodd swyddogion cyfrifol am gymryd camau "rhag ofn y bydd trosedd difrifol pellach" yn hytrach nag am eu bod yn arferion da. Mae'r diwylliant hwn wedi dod i'r amlwg hefyd mewn digwyddiadau hyfforddi, lle rhoddir cyngor ar ymarfer rhag ofn y bydd trosedd difrifol pellach yn hytrach nag ar sail ei rinweddau ei hun. Mae darparwyr gwasanaethau prawf yn cydnabod yr effaith negyddol y mae'r broses adolygu SFO yn ei chael ar staff gweithredol a'r ofn y mae'n ei greu. Mae'r sesiynau briffio cenedlaethol a ddatblygwyd gan y grŵp cyfeirio SFO yn enghraifft o ymgais gan sefydliadau i wella'r diwylliant. Yn NPS Llundain, cafwyd cydymdrech gan y tîm adolygu SFO i roi pwyslais ar ffocws dysgu cadarnhaol ac mae tystiolaeth bod hyn wedi llwyddo i ryw raddau. Mae staff gweithredol sydd wedi mynd drwy'r broses hon wedi dweud ei bod yn brofiad cadarnhaol, a'i bod yn canolbwyntio ar ddysgu gwersi yn hytrach na bwrw bai.

## 4.4. Dysgu amlasiantaethol

Mae Cyfarwyddyd Prawf PI 06/2018 yn ei gwneud yn glir mai ymarfer prawf yw'r unig fater sydd i'w ystyried mewn adolygiadau SFO, er ei fod yn darparu cyfarwyddyd ar achosion sydd hefyd yn destun adolygiadau allanol ychwanegol. Mae'r canllawiau gweithredol yn cyfarwyddo adolygwyr i wneud dyfarniadau ar y gwaith amlasiantaethol a gyflawnwyd, ond nid yw'n ofynnol iddynt gael barn yr asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r achos. O ystyried natur gymhleth yr unigolion sy'n cyflawni troseddau difrifol pellach mewn llawer achos, fe all hyn gyfyngu'r mewnwelediad i ymarfer a dysgu.

Nid yw'r broses adolygu SFO yn gweithredu ar sail y fframwaith amlasiantaethol, ac felly ar sail yr atebolrwydd ehangach sydd gan adolygiadau eraill o achosion difrifol sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae'n anochel bod adolygiadau SFO yn cyfeirio at waith amlasiantaethol ond, heb gael mewnbwn gan asiantaethau eraill, ni allant lawn asesu effeithiolrwydd y gwaith mewn partneriaeth. Yn ein sampl, dim ond 39 y cant o'r adolygiadau a oedd yn rhoi sylw digonol i waith amlasiantaethol. Dim ond 6 y cant o'r camau gweithredu mewn adolygiadau SFO a oedd yn cyfeirio at asiantaethau allanol. Roedd y camau gweithredu hyn wedi'u dyrannu i uwch-reolwyr prawf ac roeddent yn cynnwys gwell trefniadau cydweithio â'r heddlu mewn perthynas â throseddwyr rhyw cofrestredig a gwell trefniadau cyswllt â gwasanaethau iechyd meddwl. Roedd y camau gweithredu'n briodol yng nghyd-destun yr achos ond roedd y gallu i'w cyflawni'n dibynnu ar gydweithredu gan asiantaethau allanol. Nid yw'r broses SFO bresennol yn gallu gorfodi hyn.

Prin iawn yw'r wybodaeth sydd gan asiantaethau allanol am y broses adolygu SFO ac ychydig o wybodaeth a gaiff ei chyfnewid ag asiantaethau eraill, hyd yn oed y rheini sy'n rhan o drefniadau MAPPA. Roeddem wedi synnu o gael gwybod nad oedd canfyddiadau am droseddau difrifol pellach mewn un rhanbarth NPS yn cael eu rhannu â'r Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA lleol, hyd yn oed lle gallent fod yn berthnasol i'r asiantaethau a oedd yn bresennol. Roedd y diffyg cyfraniad gan asiantaethau allanol yn cyfyngu'r mewnwelediad i ddulliau rheoli achosion a pherthnasoedd gwaith.

Nifer bach o'r achosion mewn adolygiadau SFO sy'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer adolygiadau amlasiantaethol fel Adolygiadau Dynladdiadau Domestig ac adolygiadau achos difrifol MAPPA (yn ein sampl ni, dim ond 3 o'r 46 o achosion a arolygwyd). Ers cyflwyno'r broses SFO ddiwygiedig, mae 9 y cant o adolygiadau SFO hefyd wedi bod yn destun adolygiadau achos difrifol MAPPA. Ar gyfer yr adolygiadau allanol hyn, bydd darparwyr gwasanaethau prawf yn cynnal adolygiad rheolaeth fewnol ychwanegol. Mae'r rhain wedi'u seilio ar yr adolygiad SFO, sy'n cael ei gwblhau cyn yr adolygiad allanol. Yn ôl darparwyr gwasanaethau prawf, er bod amserlenni'r gwahanol adolygiadau'n cael eu cytuno, bydd rhywfaint o ddyblygu bob amser wrth gwblhau adolygiad arall. Felly, nid yw adolygiadau allanol yn cael eu cynnal ar gyfer y rhan fwyaf o droseddau difrifol pellach lle mae asiantaethau allanol yn gysylltiedig. O ganlyniad i hyn, nid yw cyfleoedd i ganfod dulliau gweithio a modelau darparu gwasanaeth gwell yn cael eu hystyried.

**Enghraifft o ymarfer: dim persbectif amlasiantaethol**

Roedd Sam wedi cael dedfryd benagored am nifer o droseddau, yn cynnwys gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn.

Cafodd ei ryddhau o'r carchar i hostel prawf cyn ei symud i lety annibynnol. Fel y byddid yn disgwyl, cafwyd cysylltu helaeth rhwng y swyddog cyfrifol ac uned amddiffyn y cyhoedd yr heddlu a oedd yn gyfrifol am droseddwyr rhyw cofrestredig. Cafwyd ymweliadau â'r cartref ar y cyd. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys atgyfeiriadau diogelu plant; gallu'r rhieni i amddiffyn plant; y risg i bartneriaid; llithro'n ôl at ddefnyddio cyffuriau Dosbarth A; a phenderfyniadau am lefel y risg o niwed yr oedd yn ei hachosi.

Ar ôl tair blynedd yn y gymuned, daeth Sam gerbron llys wedi'i gyhuddo o dreisio merch ei bartner, a oedd yn oedolyn.

Er gwaethaf lefel y cydweithio rhwng y gwasanaeth prawf a'r heddlu, nid oedd yr adolygiad SFO yn cynnwys persbectif amlasiantaethol. Oherwydd hynny, ni chraffwyd yn ddigon manwl ar y penderfyniadau a wnaed a chollwyd cyfleoedd posibl ar gyfer dysgu ar draws asiantaethau.

## 4.4. Casgliadau a goblygiadau

Mae tîm adolygu SFO HMPPS yn sicrhau ansawdd adolygiadau SFO ar sail y safonau ymarfer yn y canllawiau gweithredol. Cawsom fod ei sgoriau'n gyson â'r safonau a osodwyd.

Nid oes strategaeth genedlaethol ar gyfer defnyddio canfyddiadau o adolygiadau SFO i gyfrannu at bolisi a gweithdrefnau. Gwnaed newidiadau mewn polisi ac ymarfer o ganlyniad i adolygiadau SFO ond, ar y cyfan, mae hyn wedi digwydd mewn ymateb i achosion proffil uchel yn hytrach nag o ganlyniad i broses systematig i ganfod gwersi i'w dysgu.

Yn aml, bydd y camau gweithredu penodol a'r materion ymarfer sy'n codi o adolygiadau SFO yn dilyn themâu cyfarwydd. Mae'r broses bresennol yn gyson o ran canfod 'beth' sydd wedi digwydd mewn achos, ond ychydig iawn o le sydd i ymchwilio i ganfod pam y mae'r un materion yn codi dro ar ôl tro. Mae tîm adolygu SFO HMPPS yn gyfrifol am gyfrannu at ddatblygu polisi ac ymarfer ond nid oes adnoddau ganddo i ddadansoddi canfyddiadau ac adnabod themâu.

Mae rhywfaint o dystiolaeth bod rhanbarthau'r NPS a'r cwmnïau adsefydlu cymunedol yn rhannu gwybodaeth, ond nid yw'r gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu'n rheolaidd ag asiantaethau allanol sydd wedi bod â rhan mewn rheoli'r achos. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys yr achosion hynny sydd wedi'u rheoli drwy'r dull Rheoli Integredig Troseddwyr a threfniadau MAPPA.

O ganlyniad i fabwysiadu'r dull targedu gan HMPPS, mae'r adborth a ddarperir yn y rhan fwyaf o achosion yn gynghorol. Oherwydd yr oedi hir cyn darparu adborth, ac eithrio mewn achosion proffil uchel a rhai a ddatgelir i ddioddefwyr, mae effaith y broses sicrhau ansawdd yn gyfyngedig. Y canfyddiad ehangach yw nad yw'r broses yn wirioneddol annibynnol, ac mae perygl y bydd hyn yn tanseilio hyder y cyhoedd.

# Cyfeiriadau


Ansbro, M. (2006). *'What can we learn from Serious Incident Reports?'*, Probation Journal 53(1), tt. 57–70.

Arolygiaeth Prawf EM. (2017). *Annual Report 2017*. Manchester: HM Inspectorate of Probation.

Arolygiaeth Prawf EM. (2018). *Independent review of the case of Leroy Campbell: final report*. Manchester: HM Inspectorate of Probation.

Arolygiaeth Prawf EM. (2019). *Report of the Chief Inspector of Probation*. Manchester: HM Inspectorate of Probation.

Arolygiaeth Prawf EM. (2020). *An inspection of central functions supporting the National Probation Service*. Manchester: HM Inspectorate of Probation.

Frazer, L. (2019). Criminal Investigation. *UK Parliament: Written answer*, 13 February, HC 220995. Ar gael yn: https://www.parliament.uk/business/publications/written-questions-answers-statements/written-question/Commons/2019-02-13/220995/

Grŵp Gweithredol a Sicrhau Systemau HMPPS. (Gorffennaf 2019). *High Profile Serious Further Offences: Systems and Practice in Action Plan implementation*. London: HMPPS.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM. (2018). Probation Instruction (PI) 06/2018: *Notification and review procedures for Serious Further Offences*. London: HMPPS.

Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr: Uned Amddiffyn y Cyhoedd. (2005). *Learning points derived from Serious Further Offence Full Reviews.* London: NOMS.

Yr Adran Addysg. (2018). *Working together to safeguard children: a guide to inter-agency working to safeguard and promote the welfare of children*. London: Department for Education.

Y Swyddfa Gartref. (2016). *Multi-agency Statutory Guidance for the Conduct of Domestic Homicide Reviews*. London: Home Office.

Y Swyddfa Gartref. (Rhagfyr 2016). *Domestic Homicide Reviews – key findings from analysis of Domestic Homicide Reviews*. London: Home Office.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2019). *Serious Further Offences*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/843382/Serious_Further_Offences_-Bulletin.pdf

# Atodiad 1: Troseddau cymwys i'w hystyried yn droseddau difrifol pellach

Yn ogystal â'r troseddau o sylwedd isod, mae helpu, annog, cwnsela, peri neu ysgogi cyflawni, neu gynllwynio i gyflawni, neu geisio cyflawni unrhyw un o'r troseddau a restrwyd yn Drosedd Difrifol Pellach.

* Mae troseddau sy'n gymwys i'w hystyried yn awtomatig yn droseddau difrifol pellach wedi'u dangos mewn teip trwm.

| Troseddau Difrifol Pellach Treisgar |
|---|
| **Llofruddio** |
| **Ymgais i lofruddio neu gynllwynio i lofruddio** |
| **Dynladdiad** |
| Llathruddo |
| Camgarcharu |
| Deisyfu llofruddio (adran 4 o *Ddeddf Troseddau Corfforol 1861*) |
| Ceisio tagu, mygu neu lindagu er mwyn cyflawni neu gynorthwyo cyflawni trosedd ditiadwy (adran 21 o *Ddeddf Troseddau Corfforol 1861*) |
| Defnyddio clorofform etc. i gyflawni neu gynorthwyo cyflawni trosedd ditiadwy (adran 22 o *Ddeddf Troseddau Corfforol 1861*) |
| Achosi anaf corfforol â ffrwydron (adran 28 o *Ddeddf Troseddau Corfforol 1861*) |
| Defnyddio ffrwydron etc. gyda'r bwriad o wneud niwed corfforol difrifol (adran 29 o *Ddeddf Troseddau Corfforol 1861*) |
| Gosod ffrwydron etc. gyda'r bwriad o beri anaf corfforol (adran 30 o *Ddeddf Troseddau Corfforol 1861*) |
| Peryglu diogelwch teithwyr rheilffordd (adran 32 o *Ddeddf Troseddau Corfforol 1861*) |
| Achosi ffrwydrad sy'n debygol o beryglu bywyd neu eiddo (adran 2 o *Ddeddf Sylweddau Ffrwydrol 1883*) |
| Ceisio achosi ffrwydrad, neu wneud neu gadw ffrwydryn gyda'r bwriad o beryglu bywyd neu eiddo (adran 3 o *Ddeddf Sylweddau Ffrwydrol 1883*) |
| Difa plentyn (adran 1 o *Ddeddf (Diogelu) Bywydau Mabanod 1929*) |
| **Mabanladdiad (adran 1 o *Ddeddf Mabanladdiad 1938*)** |
| **Achosi neu ganiatáu marwolaeth plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, a elwir hefyd yn 'lladdiad teuluol' (adran 5 o *Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004*)** |
| Bod â meddiant arf tanio gyda'r bwriad o beryglu bywyd (adran 16 o *Ddeddf Arfau Tanio 1968*) |
| Defnyddio arf tanio i wrthsefyll arestio (adran 17(1) o *Ddeddf Arfau Tanio 1968*) |
| Bod â meddiant arf tanio ar adeg cyflawni trosedd neu ar adeg cael ei arestio am drosedd a bennwyd yn Atodlen 1 i'r Ddeddf honno (adran 17(2) o *Ddeddf Arfau Tanio 1968*) |
| Cario arf tanio gyda bwriad troseddol (adran 18 o *Ddeddf Arfau Tanio 1968*) |

| |
|---|
| Lladrad neu ymosod gyda'r bwriad o ladrata (adran 8(1) o *Ddeddf Dwyn 1968*). *[DS: dim ond lle mae arf tanio/arf tanio ffug yn cael ei ddefnyddio]* |
| Bwrgleriaeth gyda'r bwriad o achosi niwed corfforol difrifol ar berson (adran 9 o *Ddeddf Dwyn 1968*) |
| Bwrgleriaeth waethygedig (adran 10 o *Ddeddf Dwyn 1968*) |
| Cymryd cerbyd gwaethygedig yn gysylltiedig â damwain a achosodd farwolaeth unrhyw berson (adran 12A o *Ddeddf Dwyn 1968*) |
| Cynnau tân yn fwriadol gyda'r bwriad o beryglu bywyd un arall neu fod yn ddi-hid o ran a fyddai bywyd un arall yn cael ei beryglu drwy hynny (adran 1 o *Ddeddf Difrod Troseddol 1971*) |
| Difrod troseddol gwaethygedig – dinistrio neu ddifrodi eiddo heblaw trosedd o gynnau tân yn fwriadol (adran 1(2a) o *Ddeddf Difrod Troseddol 1971*)<br>*[DS: rhaid bod bwriad neu ddihidrwydd o ran peryglu bywyd drwy'r difrod troseddol]* |
| Cymryd gwystlon (adran 1 o *Ddeddf Cymryd Gwystlon 1982*) |
| Herwgipio (adran 1 o *Ddeddf Diogelwch wrth Hedfan 1982*) |
| Dinistrio, difrodi neu beryglu diogelwch awyren (adran 2 o *Ddeddf Diogelwch wrth Hedfan 1982*) |
| Gweithredoedd eraill sy'n peryglu neu'n debygol o beryglu diogelwch awyren (adran 3 o *Ddeddf Diogelwch wrth Hedfan 1982*) |
| Arteithio (adran 134 o *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988*) |
| **Achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus (adran 1 o *Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988*)** |
| **Achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal wrth fod o dan ddylanwad diod neu gyffuriau (adran 3A o *Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988*)** |
| Peryglu diogelwch mewn meysydd glanio (adran 1 o *Ddeddf Diogelwch yn yr Awyr ac ar y Môr 1990*) |
| Herwgipio llongau (adran 9 o *Ddeddf Diogelwch yn yr Awyr ac ar y Môr 1990*) |
| Cipio neu arfer rheolaeth ar lwyfannau gosod (adran 10 o *Ddeddf Diogelwch yn yr Awyr ac ar y Môr 1990*) |
| Dinistrio llwyfannau gosod neu beryglu eu diogelwch (adran 11 o *Ddeddf Diogelwch yn yr Awyr ac ar y Môr 1990*) |
| Gweithredoedd eraill sy'n peryglu neu sy'n debygol o beryglu mordwyo diogel (adran 12 o *Ddeddf Diogelwch yn yr Awyr ac ar y Môr 1990*) |
| Troseddau sy'n cynnwys bygythiadau (adran 13 o *Ddeddf Diogelwch yn yr Awyr ac ar y Môr 1990*) |
| Troseddau sy'n ymwneud â threnau Twnnel y Sianel a system y twneli (Rhan II o *Orchymyn Twnnel y Sianel (Diogelwch) 1994* (O.S. 1994/570)) |
| Hil-laddiad, troseddau yn erbyn y ddynoliaeth, troseddau rhyfel a throseddau cysylltiedig, heblaw un sy'n ymwneud â llofruddio (adran 51 neu 52 o *Ddeddf y Llys Troseddol Rhyngwladol 2001*) |
| Anffurfio organau cenhedlu benywod (adran 1 o *Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003*) |
| Cynorthwyo geneth i anffurfio ei horganau cenhedlu ei hun (adran 2 o *Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003*) |
| Cynorthwyo person nad yw o'r DU i anffurfio organau cenhedlu geneth mewn gwlad dramor (adran 3 o *Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003*) |

| **Troseddau Difrifol Pellach Rhywiol** |
|---|
| **Treisio neu ymosod drwy dreiddio (adran 1 neu 2 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*)** |
| **Cyfathrach â merch o dan 13 oed (adran 5 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 1956*)** |
| Llosgach gan ddyn â menyw y mae'n gwybod ei bod yn wyres, yn ferch, yn chwaer neu'n fam iddo (adran 10(1) o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 1956*) **(yn gymwys ar gyfer adolygiad awtomatig os yw'r dioddefwr o dan 13 oed)** |
| Herwgydio menyw drwy rym neu er mwyn ei heiddo (adran 17 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 1956*) |
| Caniatáu i ferch o dan 13 oed ddefnyddio mangre i gael cyfathrach (adran 25 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 1956*) |
| Bwrgleriaeth gyda'r bwriad o dreisio (adran 9 o *Ddeddf Dwyn 1968*) |
| **Treisio (adran 1 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*)** |
| **Ymosod drwy dreiddio (adran 2 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*)** |
| **Treisio plentyn o dan 13 oed (adran 5 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*)** |
| **Ymosod ar blentyn o dan 13 oed drwy dreiddio (adran 6 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*)** |
| **Ymosod rhywiol ar blentyn o dan 13 oed (adran 7 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*)** |
| **Ysgogi neu achosi i blentyn o dan 13 oed gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol (adran 8 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*)** |
| Gweithgarwch rhywiol â phlentyn (adran 9 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*) **(yn gymwys ar gyfer adolygiad awtomatig os yw'r dioddefwr o dan 13 oed)** |
| Ysgogi neu achosi i blentyn gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol (adran 10 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*) **(yn gymwys ar gyfer adolygiad awtomatig os yw'r dioddefwr o dan 13 oed)** |
| Trefnu neu hwyluso cyflawni trosedd rhyw plentyn (adran 14 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*) **(yn gymwys ar gyfer adolygiad awtomatig os yw'r dioddefwr o dan 13 oed)** |
| Gweithgarwch rhywiol ag aelod o'r teulu sy'n blentyn (adran 25 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*) **(yn gymwys ar gyfer adolygiad awtomatig os yw'r dioddefwr o dan 13 oed)** |
| Ysgogi aelod o'r teulu sy'n blentyn i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol (adran 26 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*) **(yn gymwys ar gyfer adolygiad awtomatig os yw'r dioddefwr o dan 13 oed)** |
| Gweithgarwch rhywiol â pherson ag anhwylder meddyliol sy'n llesteirio dewis (adran 30 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*) |
| Ysgogi neu achosi i berson ag anhwylder meddyliol sy'n llesteirio dewis gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol (adran 31 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*) |
| Cymell, bygwth neu arfer dichell i gaffael gweithgarwch rhywiol â pherson ag anhwylder meddyliol (adran 34 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*) |
| Achosi i berson ag anhwylder meddyliol gymryd rhan neu gytuno i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol drwy gymell, bygwth neu ddichell (adran 35 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol* |

| |
|---|
| *2003*) |
| Talu am wasanaethau rhywiol plentyn (adran 47 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*) **(yn gymwys ar gyfer adolygiad awtomatig os yw'r dioddefwr o dan 13 oed)** |
| Achosi neu ysgogi puteindra neu bornograffi plant (adran 48 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*) **(yn gymwys ar gyfer adolygiad awtomatig os yw'r dioddefwr o dan 13 oed)** |
| Rheoli putain sy'n blentyn neu blentyn sy'n ymwneud â phornograffi (adran 49 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*) **(yn gymwys ar gyfer adolygiad awtomatig os yw'r dioddefwr o dan 13 oed)** |
| Trefnu neu hwyluso puteindra neu bornograffi plant (adran 50 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*) **(yn gymwys ar gyfer adolygiad awtomatig os yw'r dioddefwr o dan 13 oed)** |
| Masnachu pobl i'r DU er mwyn camfanteisio arnynt yn rhywiol (adran 57 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*) |
| Masnachu pobl o fewn y DU er mwyn camfanteisio arnynt yn rhywiol (adran 58 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*) |
| Masnachu pobl o'r DU er mwyn camfanteisio arnynt yn rhywiol (adran 59 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*) |
| Achosi i berson gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol heb gydsyniad (adran 4 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*)<br>[Sylwer: dim ond lle mae treiddio'n gysylltiedig] |
| Gweithwyr gofal: gweithgarwch rhywiol â pherson ag anhwylder meddyliol (adran 38 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*)<br>[Sylwer: dim ond lle mae treiddio'n gysylltiedig] |
| Gweithwyr gofal: achosi neu ysgogi gweithgarwch rhywiol (adran 39 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*)<br>[Sylwer: dim ond lle mae treiddio'n gysylltiedig] |

# Atodiad 2: Rhestr termau a byrfoddau

| | |
|---|---|
| **Adolygiad Dynladdiadau Domestig** | Adolygiad amlasiantaethol a gychwynnir gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol awdurdodau lleol mewn achosion o lofruddiaeth ddomestig |
| **Adolygiad SFO** | Adolygiad a gynhelir pan fydd defnyddiwr gwasanaethau'n cyflawni trosedd sy'n gymwys i'w ystyried yn drosedd difrifol pellach. |
| **Adroddiad cyn dedfrydu** | Unrhyw adroddiad a baratoir ar gyfer llys i'w gyflwyno ar lafar neu mewn ysgrifen. |
| **Darparwyr** | Mae darparwyr yn cyflenwi gwasanaeth neu fewnbwn a gomisiynwyd gan yr NPS neu gwmni adsefydlu cymunedol ac a ddarperir o dan gontract. Mae hyn yn cynnwys y staff a gwasanaethau a ddarperir o dan y contract, hyd yn oed os ydynt wedi'u hintegreiddio â'r NPS neu gwmni adsefydlu cymunedol neu wedi'u lleoli ynddynt. |
| ***Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014* (DAT)** | Fe'i gweithredwyd yn Chwefror 2015. Mae'n gymwys i droseddau a gyflawnwyd ar y dyddiad hwnnw ac wedyn. |
| **Grŵp Amddiffyn y Cyhoedd** | Mae'r grŵp hwn yn rhan o'r NPS ac yn gyfrifol am strategaeth a pholisi ar amddiffyn y cyhoedd, yn cynnwys y broses adolygu SFO. |
| **HMPPS** | Her Majesty's Prison and Probation Service: Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Yr asiantaeth sengl sy'n gyfrifol am garchardai a gwasanaethau prawf. Gweler y nodyn isod ar NOMS. |
| **Is-adran Ymarfer Effeithiol** | Mae'r is-adran hon yn rhan o Gyfarwyddiaeth Berfformiad HMPPS ac mae'n gyfrifol am ddatblygu a lledaenu arferion effeithiol. |
| **MAPPA** | Multi-Agency Public Protection Arrangements: Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd. Lle mae gwasanaethau prawf, yr heddlu, carchardai ac asiantaethau eraill yn cydweithio ar lefel leol i reoli troseddwyr sy'n peri risg fwy o niwed i bobl eraill. Lefel 1 yw'r rheoli arferol gan asiantaeth, lle mae'r asiantaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio neu reoli achos y troseddwr yn gallu rheoli'r risgiau a achosir gan y troseddwr. Mewn cymhariaeth â hyn, mae Lefelau 2 a 3 yn galw am reoli amlasiantaethol gweithredol. |
| **NOMS** | National Offender Management Service: Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. Hyd Ebrill 2017, hon oedd yr asiantaeth sengl a oedd yn gyfrifol am garchardai a gwasanaethau prawf. Mae'n cael ei alw bellach yn Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS). |
| **NPS** | National Probation Service: Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Gwasanaeth cenedlaethol sengl a sefydlwyd ym Mehefin 2014. Ei rôl yw darparu gwasanaethau i lysoedd |

| | |
|---|---|
| | a rheoli grwpiau penodol o droseddwyr, yn cynnwys y rheini sy'n peri risg fawr neu risg fawr iawn o niwed difrifol a'r rheini sy'n dod o dan drefniadau MAPPA. |
| **OASys** | System asesu troseddwyr a ddefnyddir ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr gan yr NPS a chwmnïau adsefydlu cymunedol i fesur risgiau ac anghenion troseddwyr sy'n cael eu goruchwylio. |
| **PI** | Probation Instruction: Cyfarwyddyd Prawf. Cyfarwyddiadau gorfodol a gaiff eu dyroddi gan HMPPS. Maent yn cynnwys polisïau a chanllawiau. |
| **Rheoli Integredig Troseddwyr (IOM)** | Mae'r dull Rheoli Integredig Troseddwyr yn ymateb trawsasiantaethol i'r bygythiadau o droseddu ac aildroseddu a wynebir mewn cymunedau lleol. Mae'r troseddwyr mwyaf cyson a phroblemus yn cael eu hadnabod a'u rheoli ar y cyd drwy gydweithio gan asiantaethau mewn partneriaeth. |
| **Tîm adolygu SFO HMPPS** | Mae'r tîm hwn yn rhan o Grŵp Amddiffyn y Cyhoedd yn yr NPS. Mae'n gyfrifol am weinyddu'r broses adolygu SFO ac am sicrhau ansawdd yr holl adolygiadau a chynlluniau gweithredu. Mae'n darparu canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau prawf ac mae'n gyfrifol am ddatblygu polisi a chanllawiau cenedlaethol mewn perthynas â throseddau difrifol pellach. |
| **Swyddog cyfrifol** | Y swyddog sy'n gyfrifol am oruchwylio'r achos. Gall fod yn swyddog prawf neu'n swyddog gwasanaethau prawf. Yn y grwpiau ffocws, roedd y ddwy radd staff yn bresennol felly rydym wedi defnyddio'r term generig wrth gyfeirio at dystiolaeth. |
| | |
| **Swyddog gwasanaethau prawf** | Dyma'r term am swyddog cyfrifol a gafodd ei recriwtio heb gymhwyster yn wreiddiol. Gall ddilyn hyfforddiant a bennwyd yn lleol i 'ymgymhwyso' yn swyddog gwasanaethau prawf neu ddilyn hyfforddiant ychwanegol i ymgymhwyso'n swyddog prawf. Caiff reoli'r holl achosion heblaw'r rhai mwyaf cymhleth yn ôl lefel ei hyfforddiant a'i brofiad. Bydd rhai swyddogion gwasanaethau prawf yn gweithio o fewn y llys lle bydd eu dyletswyddau'n cynnwys ysgrifennu adroddiadau cyn dedfrydu. |
| **Swyddog prawf** | Dyma'r term am swyddog cyfrifol 'cymwysedig' sydd wedi dilyn cwrs addysg uwch am ddwy flynedd. Bydd enw'r cymhwyster a chynnwys yr hyfforddiant yn amrywio yn ôl pa bryd y dilynwyd y cwrs. Mae'n rheoli achosion mwy cymhleth. |
| **Trosedd difrifol pellach** | Troseddau a gyflawnir gan ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n dod o fewn cwmpas PI 06/2018 Atodiad A. |

# Atodiad 3: Methodoleg

**Cyn y gwaith maes**

- Nodi a dadansoddi polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a HMPPS mewn perthynas â throseddau difrifol pellach
- Adolygu adroddiadau am arolygiadau perthnasol
- Adolygu gwybodaeth a gyflwynwyd ymlaen llaw gan dîm SFO HMPPS am safonau ac ymarfer sicrhau ansawdd
- Adolygu data a gafwyd gan dîm adolygu SFO HMPPS am niferoedd yr hysbysiadau, yr adolygiadau a gyflwynwyd ac adolygiadau a aeth drwy'r broses sicrhau ansawdd er 01 Ebrill 2018
- Adolygu gwybodaeth a gafwyd gan ddarparwyr sy'n disgrifio trefniadau ar gyfer llywodraethu troseddau difrifol pellach, monitro a chyflawni cynlluniau gweithredu
- Adolygu cofnodion cyfarfodydd, cofnodion am gyfathrebu a thystiolaeth o weithredu arferion a gyflwynwyd gan ddarparwyr gwasanaethau prawf
- Cyfarfodydd i bennu'r cyd-destun gyda rheolwyr tîm SFO HMPPS
- Cyfarfod telegynadledda â'r Dirprwy Gomisiynydd Dioddefwyr
- Cyfarfod Skype â Phennaeth Datblygu Ymarfer yn Is-adran Ymarfer Effeithiol HMPPS
- Arolygiad peilot yn rhanbarth NPS Gogledd-orllewin Lloegr yn Hydref 2019.

**Gwaith maes yr arolygiad**

Cynhaliwyd gwaith maes yr arolygiad yn Nhachwedd a Rhagfyr 2019. Roedd yn cynnwys ymweliadau â'r tîm canolog a phedair ardal lle'r oedem wedi cwrdd â'r NPS a chwmnïau adsefydlu cymunedol.

| Ardal | Cwmni adsefydlu cymunedol | Rhanbarth NPS |
|---|---|---|
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | Northumbria | NPS Gogledd-ddwyrain Lloegr |
| Llundain | Llundain | NPS Llundain |
| Cymru | Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru* | NPS Cymru |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | Swydd Stafford a Gorllewin Canolbarth Lloegr | NPS Gorllewin Canolbarth Lloegr |
| Llundain | | Tîm adolygu SFO HMPPS yng Ngrŵp Amddiffyn y Cyhoedd |

*Ar 01 Rhagfyr 2019, daeth contract Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru i ben ac o dan y system unedig daeth NPS Cymru yn gyfrifol am reoli'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n oedolion yng Nghymru.

Roedd y gwaith maes ym mhob ardal yn cynnwys cyfarfodydd â'r rheolwyr a staff canlynol:

- Uwch-reolwyr rhanbarthau'r NPS a chwmnïau adsefydlu cymunedol
- Arweinwyr amddiffyn y cyhoedd yn rhanbarthau'r NPS
- Rheolwr arweiniol ar droseddau difrifol pellach yn y cwmnïau adsefydlu cymunedol
- Penaethiaid timau troseddau difrifol pellach yn y cwmnïau adsefydlu cymunedol a'r NPS
- Rheolwyr canol yn rhanbarthau'r NPS a'r cwmnïau adsefydlu cymunedol
- Rheolwyr timau datblygu ansawdd yn yr NPS a'r cwmnïau adsefydlu cymunedol
- Swyddogion cyfrifol yn yr NPS a'r cwmnïau adsefydlu cymunedol
- Rheolwyr cyswllt dioddefwyr
- Swyddogion cyswllt dioddefwyr.

Cyfarfodydd â rheolwyr yn yr asiantaethau allanol a ganlyn:

- Gofal Cymdeithasol Plant
- Yr Heddlu
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.

Cyfarfodydd â dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd a gafodd ddatgeliadau o dan y broses adolygu SFO.

Cynhaliwyd y cyfarfodydd canlynol â thîm adolygu SFO HMPPS:

- Dirprwy Gyfarwyddwr Grŵp Amddiffyn y Cyhoedd
- Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd a Phartneriaethau
- Pennaeth y tîm adolygu SFO
- Uwch-reolwr sicrhau ansawdd adolygiadau SFO
- Adolygwyr sicrhau ansawdd adolygiadau SFO.

**Arolygu achosion adolygu troseddau difrifol pellach**

Roedd timau adolygu SFO HMPPS wedi darparu'r holl adolygiadau SFO a oedd wedi mynd drwy'r broses sicrhau ansawdd rhwng Ebrill 2018 a Hydref 2019. Roeddem wedi dewis sampl o 60 ac wedi arolygu 46 ohonynt.

Roeddem wedi dilyn y canllawiau gweithredol ar droseddau difrifol pellach wrth lunio meini prawf ar gyfer arolygu'r dogfennau adolygu. Y dogfennau a arolygwyd oedd:

- cronoleg
- adborth
- cynllun gweithredu
- adborth sicrhau ansawdd.

Darllenwyd yr adborth sicrhau ansawdd ar ôl gwneud dyfarniad ynghylch dogfennau'r adolygiad.

Cyfwelwyd uwch-reolwr yng Nghwmni Adsefydlu Cymunedol Caint, Surrey a Sussex.

# Atodiad 4: Adolygiadau achos difrifol

| Adolygiad achos difrifol MAPPA[16] | |
|---|---|
| **Meini prawf** | Bod y troseddwr wedi'i gyhuddo o drosedd difrifol pellach.<br>Yn yr un modd ag adolygiadau SFO, mae adolygiadau gorfodol a dewisol.<br>**Gorfodol:** y troseddwr yn cael ei reoli ar lefel 2 neu 3 MAPPA A bod y trosedd yn llofruddio, ymgais i lofruddio, dynladdiad, treisio neu ymgais i dreisio.<br>**Dewisol:** Yn ôl amgylchiadau'r achos ac a yw'r canllawiau MAPPA wedi'u torri'n ddifrifol. Fodd bynnag, rhaid ystyried yn ofalus a fydd unrhyw fantais heblaw honno i adolygiad rheoli'r asiantaeth arweiniol. |
| **Y broses adolygu** | • Cydlynydd MAPPA yn hysbysu Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol (BRhS) am y cyhuddiad o drosedd difrifol pellach.<br>• Cadeirydd y BRhS yn penderfynu a yw'r achos yn galw am adolygiad achos difrifol (AAD) MAPPA ac yn hysbysu Grŵp Amddiffyn y Cyhoedd (GAC)<br>• Cadeirydd y BRhS yn hysbysu pob asiantaeth gysylltiedig y cynhelir AAD MAPPA.<br>• Panel AAD MAPPA yn cwrdd (yn cynnwys Arweinydd yr AAD, person uwch a enwebwyd gan bob asiantaeth, a chynghorydd lleyg).<br>• Arweinydd AAD MAPPA yn llunio adroddiad, ac aelodau'r panel yn cynrychioli asiantaethau eraill. Anfonir yr adroddiad at Gadeirydd y BRhS a GAC.<br>• Arweinydd AAD MAPPA yn llunio adroddiad trosolwg y gellir ei rannu'n allanol. |
| **Y broses sicrhau ansawdd** | Cynghorydd lleyg ar banel yr AAD:<br>• i fod yn llais annibynnol yn yr adolygiad.<br>• i sicrhau bod unrhyw faterion cymunedol yn cael sylw.<br>• i weithredu fel 'cyfaill beirniadol' i'r gweithwyr proffesiynol.<br>GAC yn sicrhau ansawdd yr adroddiad – dim manylion pellach |
| **Amseroldeb** | Penderfyniad i gynnal AAD MAPPA o fewn 10 diwrnod ar ôl hysbysu cadeirydd y BRhS am y cyhuddiad. Y cadeirydd yn hysbysu'r asiantaethau o fewn pum diwrnod ar ôl gwneud y penderfyniad.<br>Y panel yn cwrdd o fewn un mis ar ôl hysbysu'r asiantaethau.<br>Llunio'r adroddiad o fewn pedwar mis ar ôl cyfarfod cyntaf y panel.<br>Llunio adroddiad trosolwg o fewn un mis ar ôl cwblhau'r adroddiad.<br>Ni ddylai'r broses gyfan rhwng y cyhuddiad o drosedd difrifol pellach a'r adroddiad trosolwg fod yn hirach na thua 7–8 mis oni bai fod oedi o ganlyniad i gyngor gan Wasanaeth Erlyn y Goron neu gyngor tebyg. |
| **Nifer** | Cwblhawyd deg AAD MAPPA yn 2018/2019, naw ar lefel 2 MAPPA ac un ar lefel 3 MAPPA.[17] |

[16] Canllawiau MAPPA 2012, fersiwn 4.5. Adran 20. https://www.gov.uk/government/publications/multi-agency-public-protection-arrangements-mappa--2

[17] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2019). *Multi-Agency Public Protection Arrangements – Annual Report 2018/19.* www.gov.uk/government/statistics/multi-agency-public-protection-arrangements-mappa-annual-report-2018-to-2019

| **Adolygiad Dynladdiadau Domestig (ADD)** [18] | |
|---|---|
| **Meini prawf** | Marwolaeth person dros 16 flwydd oed sydd neu sy'n ymddangos ei bod yn ganlyniad i drais, cam-drin neu esgeuluso gan berthynas, partner personol neu aelod o'r un aelwyd. |
| **Y broses adolygu** | • Yr Heddlu'n hysbysu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) amlasiantaethol leol am y dynladdiad domestig; fodd bynnag, gall unrhyw weithiwr proffesiynol neu asiantaeth atgyfeirio dynladdiad i'r PDC os yw'n credu bod gwersi pwysig i'w dysgu rhwng asiantaethau.<br>• Mae'r PDC yn gyfrifol am ddangos a oes angen ADD. Bydd yn sefydlu panel adolygu sy'n cynnwys cynrychiolwyr asiantaethau statudol ac unrhyw sefydliadau neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill. Bydd cadeirydd y panel adolygu yn unigolyn annibynnol, profiadol sydd heb gysylltiad uniongyrchol ag unrhyw asiantaethau sydd â rhan yn yr adolygiad. Dylid rhoi cyfle i deuluoedd gymryd rhan yn yr adolygiadau a dylid eu trin fel rhanddeiliaid allweddol.<br>• Bydd y panel adolygu a'r cadeirydd yn llunio cylch gorchwyl i benderfynu'r cwmpas, a fydd yn neilltuol i bob adolygiad.<br>• Comisiynir pob asiantaeth berthnasol i lunio adolygiad rheoli unigol (ARhU) i'w gyflwyno i'r panel adolygu.<br>• Bydd yr adroddiad trosolwg, y crynodeb gweithredol a'r cynllun gweithredu, a gaiff eu drafftio gan gadeirydd y panel neu awdur, yn dod i gasgliadau cyffredinol ar sail y wybodaeth a'r dadansoddiad sydd yn yr ARhUau ac adroddiadau neu wybodaeth a gomisiynwyd gan unrhyw bartïon perthnasol eraill.<br>• Bydd y PDC yn cytuno ac yn cymeradwyo'r adroddiadau trosolwg, crynodebau gweithredol a chynlluniau gweithredu.<br>• Ar ôl eu cwblhau, mae'r holl adroddiadau trosolwg, crynodebau gweithredol a chynlluniau gweithredu i gael eu hanfon i Banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref.<br>• Ar ôl eu cymeradwyo gan y panel sicrhau ansawdd, dylid addasu'r dogfennau mewn ffordd briodol i'w gwneud yn ddienw a threfnu iddynt fod ar gael i'r cyhoedd. |
| **Y broses sicrhau ansawdd** | Ar ôl eu cwblhau, mae'r holl adroddiadau trosolwg, crynodebau gweithredol a chynlluniau gweithredu i gael eu hanfon i'r Swyddfa Gartref. Byddant yn cael eu hasesu ar sail canllawiau a roddwyd gan Banel Sicrhau Ansawdd sy'n cynnwys cynrychiolwyr yr holl asiantaethau statudol yn ogystal â'r sector gwirfoddol. Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwarter i asesu safonau adroddiadau yn ogystal â nodi arferion da a gwael ac anghenion hyfforddi.<br>Os asesir bod adolygiadau'n annigonol, anfonir crynodeb o'r canfyddiadau at gadeirydd y PDC a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod meysydd sy'n peri pryder yn cael sylw ac yn cael eu gwella gan y panel adolygu. |
| **Amseroldeb** | Penderfynir ar gomisiynu adolygiad o fewn un mis ar ôl hysbysu'r PDC.<br>Dylid cwblhau'r adroddiad trosolwg o fewn chwe mis ar ôl hynny. |
| **Nifer** | Ni cyhoeddir nifer yr adolygiadau.<br>Yn 2018/2019, cafwyd 129 o ddynladdiadau domestig (dynladdiadau gan bartner/cyn-bartner neu aelod o'r teulu).[19] Fodd bynnag, dylid nodi bod y trothwy ar |

[18] Y Swyddfa Gartref. Domestic homicide reviews collection. www.gov.uk/government/collections/domestic-homicide-review.

| | |
|---|---|
| | gyfer cynnal ADD yn is na'r trothwy troseddol. Er enghraifft, gellir cynnal ADD ar hunanladdiad ymddangosiadol, lle mae'n ymddangos bod yr hunanladdiad wedi'i achosi gan gam-drin, ond ni fyddai achos o'r fath yn cael ei gofnodi yn y mynegai dynladdiadau. |
| **Adolygiad ymarfer diogelu plant, Lloegr (adolygiad achos difrifol cyn hynny) [20]** | |
| **Meini prawf** | Achosion lle mae cam-drin neu esgeuluso plentyn yn hysbys neu wedi'i amau A bod y plentyn wedi marw neu gael niwed difrifol.<br>Os bodlonir y meini prawf, nid yw hynny'n golygu bod rhaid i'r partneriaid diogelu gynnal adolygiad lleol yn awtomatig. Mater iddyn nhw yw penderfynu a yw adolygiad yn briodol, o gofio mai pwrpas cyffredinol yr adolygiad yw pennu gwelliannau mewn ymarfer. Mae'n bosibl na fydd rhai achosion yn gyson â'r diffiniad o 'achos diogelu plentyn difrifol', ond gallant godi materion o bwys i'r ardal leol a gallant sbarduno adolygiad. |
| **Y broses adolygu** | Bydd yr awdurdod lleol yn hysbysu'r partneriaid diogelu lleol a'r Panel Ymarfer Diogelu Plant cenedlaethol (y Panel) am yr holl achosion sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer achos diogelu plentyn difrifol.<br>**Adolygiad cyflym:** Bydd y partneriaid diogelu yn cynnal adolygiad cyflym yn ddioed i gasglu ffeithiau, pennu camau i'w cymryd ar unwaith, ystyried y cyfle i bennu gwelliannau, a phenderfynu a oes angen cynnal adolygiad llawn ac, os oes, ar lefel leol neu genedlaethol.<br>**Adolygiad lleol:** Os penderfynir cynnal adolygiad lleol, bydd y partneriaid diogelu lleol yn comisiynu ac yn goruchwylio adolygydd sydd ag arbenigedd addas ac yn ystyried a oes gwrthdaro buddiannau yn yr achos.<br>Bydd y partneriaid diogelu a'r adolygydd yn cytuno ar ddull adolygu sy'n cynnig ffordd i edrych ar ymarfer yn y rheng flaen a'i ddadansoddi ac i edrych hefyd ar strwythurau sefydliadol a gwersi i'w dysgu.<br>Bydd yr adroddiad terfynol yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwelliannau a dadansoddiad o'r rhesymau systemig neu sylfaenol. Dylid ei anfon i'r Panel, yr Ysgrifennydd Gwladol ac Ofsted.<br>**Adolygiad cenedlaethol:** Mae'r panel yn gyfrifol am arolygu a goruchwylio adolygiadau cenedlaethol, yn cynnwys y camau i gomisiynu adolygydd, a hysbysu a thrafod y cwmpas â phartneriaid diogelu perthnasol. Bydd yr adolygiad yn dilyn yr un canllawiau ar weithdrefnau â'r adolygiadau lleol.<br>Dylid ysgrifennu adroddiadau ar ffurf sy'n addas i'w chyhoeddi. Dylai adroddiadau lleol fod ar gael i'r cyhoedd am un flwyddyn o leiaf a dylai adroddiadau cenedlaethol fod ar gael am o leiaf dair blynedd. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiadau, dylai'r panel anfon copïau ohonynt i'r What Works Centre for Children's Social Care ac i arolygiaethau, cyrff neu unigolion perthnasol fel y mae'n gweld orau. |
| **Y broses sicrhau ansawdd** | Bydd y partneriaid diogelu yn sicrhau ansawdd adolygiadau lleol a gwblhawyd gan adolygwyr a gomisiynwyd ac yn eu cymeradwyo, a bydd y Panel yn gwneud hynny ar gyfer adolygiadau cenedlaethol. Nid oes disgrifiad o broses ffurfiol glir ar gyfer sicrhau ansawdd ar lefel genedlaethol, heblaw am y canllawiau a gyhoeddwyd ar yr ansawdd a ddisgwylir. Gall y panel awgrymu diwygiadau i ddileu gwybodaeth sensitif er mwyn gallu cyhoeddi adolygiadau. |

[19] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2020). *Homicide in England and Wales*: year ending March 2019. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/homicideinenglandandwales/yearendingmarch2019

[20] Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant. (2019). Canllawiau ymarfer: www.gov.uk/government/publications/child-safeguarding-practice-review-panel-practice-guidance

| | |
|---|---|
| **Amseroldeb** | Dylid cynnal adolygiad cyflym o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl hysbysu'r Panel. Ni ddylid cyhoeddi'r adroddiad yn hwyrach na chwe mis ar ôl y penderfyniad i gynnal adolygiad llawn, oni bai y byddai ei gyhoeddi'n effeithio ar weithrediadau eraill (er enghraifft, ymchwiliadau troseddol). |
| **Nifer** | Yn 2019 cyhoeddwyd dau adolygiad cenedlaethol.[21] Nid yw'n ymddangos bod nifer yr adolygiadau lleol a gyhoeddwyd yn cael ei gyhoeddi'n ganolog gan y Panel. Mae'n bosibl bod hyd at 46 o adolygiadau lleol wedi'u cyhoeddi yn 2019.[22] |

[21] Adolygiadau cenedlaethol: https://www.gov.uk/government/organisations/child-safeguarding-practice-review-panel

[22] Adolygiadau lleol (gallant gynnwys adolygiadau nad oeddent wedi'u cwblhau o dan y canllawiau newydd): https://learning.nspcc.org.uk/case-reviews/recently-published-case-reviews/

Arolygiaeth Prawf EM

Arolygiaeth Prawf EM
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

ISBN: 978-1-84099-942-6